

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: 30 Awst 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 6 MEDI 2018 am 9.30 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FYNYCHU'R RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2018 (copi wedi'i atodi).

5 RHOI CYNNIG GOFAL PLANT AM DDIM LLYWODRAETH CYMRU AR WAITH YN SIR DDINBYCH (Tudalennau 17 - 78)

Ystyried Adroddiad gan y Prif Reolwr: Ymyrraeth, Ataliad, Iechyd a Lles (copi wedi'i atodi) i geisio barn y Pwyllgor Craffu ar weithrediad arfaethedig cynnig Gofal Plant am ddim Llywodraeth Cymru yn Sir Ddinbych o Ebrill 2019.

6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 79 - 96)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi wedi'i atodi) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac yn diweddarau aelodau ar faterion perthnasol.

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Huw Williams
(Cadeirydd)

Y Cyngorydd Graham Timms (Is-
Gadeirydd)

Brian Blakeley
Meirick Davies
Rachel Flynn
Tina Jones
Merfyn Parry

Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Cheryl Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 12 Gorffennaf 2018 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd).

Roedd y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol dros Dai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd yn bresennol ar gyfer eitem rhif 6 ar gais y Pwyllgor.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Bobby Feeley ac Arwel Roberts.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (GB), Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (TW), Rheolwr Uned Waith (AC), Cydlynnydd Craffu (RE), Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KAE).

Unigolion a oedd yn bresennol o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru:

Andrew Long – Rheolwr Rhanbarthol WAST Gogledd Cymru

Duncan Robertson – Arweinydd Clinigol Rhanbarthol (Parafeddyg Ymgynghorol) Gogledd Cymru

Claire Bevan – Cyfarwyddwr Gweithredol Diogelwch o Ansawdd Uchel a Phrofiad Cleifion (Nyrsio) WAST

Pam Hall – Cyfarwyddwr Anweithredol WAST

Deborah Cartref – Yn cynrychioli Gill Harries, Cyfarwyddwr Nyrsys Gweithredol PBC

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Brian Blakeley gysylltiad personol yn eitem rhif 5 ar y rhaglen gan fod ei wraig yn gweithio i'r GIG.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion bryn.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 17 Mai.

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2018 fel cofnod cywir.

5 YMDDIRIEDOLAETH GWASANAETH AMBIWLANS CYMRU A GWASANAETH MEDDYG TEULU TU ALLAN I ORIAU

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwllans Cymru (WAST) a Gwasanaeth Meddyg Teulu Tu Allan i Oriau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cyfarfod, i roi cyflwyniad ar sut mae'r ddau wasanaeth yn cydweithio i wella canlyniadau i gleifion drwy ddarparu ymateb sy'n addas yn glinigol, yn hytrach na chanolbwyntio ar dargedau amser diystyr.

Drwy gyfrwng cyflwyniad PowerPoint, eglurodd cynrychiolwyr WAST y rhaglen trawsnewid sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru dros y blynyddoedd diweddar. Fe wnaethant dynnu sylw at nifer o ddatblygiadau cadarnhaol a oedd wedi digwydd fel rhan o'r rhaglen trawsnewid hon, ac fe wnaethant rannu eu profiad o weithredu'r Model Ymateb Clinigol (a benderfynodd ar yr ymateb mwyaf addas i ddefnyddio galwad argyfwng). Fe wnaethant sôn am y gwersi a ddysgwyd fel rhan o'r broses weithredu a'u dyheadau am y dyfodol i wella'r llwybr gofal i gleifion.

Rhodddwyd trosolwg hefyd i Aelodau am sefyllfa'r Model Ymateb Clinigol yng nghydestun y newid sefydliadol a system ehangach o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Comisiynwyd WAST gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru i roi gwasanaeth ambiwlans i gludo cleifion i'w sefydliadau ac i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth iechyd addas ar y ffordd i'r sefydliadau hynny. Ar draws Cymru, roedd y Gwasanaeth yn delio gydag oddeutu 1,300 o alwadau brys bob dydd. Roedd y Gwasanaeth – a ariannwyd gan y Llywodraeth – am ddim yn y pwynt o angen.

Yn debyg i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, ac yn rhannol oherwydd newidiadau demograffig, roedd o dan bwysau cynyddol, wrth i'r galw am ei wasanaethau barhau i gynyddu. Roedd y cynnydd hwnnw mewn galw wedi tynnu sylw'r Gwasanaeth Ambiwllans at yr angen i newid yr amgylchedd gweithredu roeddent yn gweithio o'i fewn. Tynnwyd y ffocws oddi wrth fodloni targedau amser diystyr, i wella'r profiad i'r claf pan roeddent yn cyrraedd, i'w trin gyda'r bwriad o wella'r canlyniadau iddynt yn y tymor hir.

Roedd y Model Ymateb Clinigol newydd wrth wraidd y rhaglen trawsnewid. WAST oedd y Gwasanaeth Ambiwllans cyntaf i fabwysiadu'r model hwn, fodd bynnag, roedd gwasanaethau yn Lloegr a'r Alban bellach yn dilyn arweiniad WAST. Yn ystod y cyflwyniad, fe wnaeth cynrychiolwyr WAST:

- ddisgrifio'r broses 'dylunio ambiwlans i ofal heb ei drefnu' a'r weithdrefn flaenoriaethau Coch, Oren, Gwyrdd (COG) y cytunwyd arni - a oedd wedi'i dylunio i fod â ffocws clinigol, ac yn ddoeth a diogel i bob claf;
- rhoi gwybod mai'r unig darged roeddent yn cael eu mesur yn ei erbyn ar sail genedlaethol gan y Llywodraeth oedd y targed 8 munud a osodwyd ar gyfer ymateb i alwad gyda statws 'Coch' - yr argyfwng â'r lefel uchaf, er eu bod fel Gwasanaeth â thargedau amrywiol wedi'u gosod ar gyfer tasgau penodol neu feysydd gwaith;
- rhoi gwybod bod lleihau'r galw am y Gwasanaeth yn anodd iawn. Roedd data'n dangos cynnydd mewn galw o'r naill flwyddyn i'r llall, gyda rhagamcaniadau'r dyfodol hefyd yn amcangyfrif cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall mewn galw ar y Gwasanaeth ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. O ganlyniad, roedd angen cynllun i geisio rheoli'r galw'n well;
- egluro bod y Model Ymateb Clinigol a dreialwyd ac a fabwysiadwyd yng Nghymru'n cynnwys gweithio gyda phartneriaid - h.y. Byrddau Iechyd, Meddygon Teulu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub ac ati - i gefnogi pobl yn effeithiol ac yn addas a oedd yn galw'r Gwasanaeth Ambiwllans yn rheolaidd (Galwyr Rheolaidd).
Er enghraifft, roedd clinigwyr nawr wedi'u lleoli yng Nghanolffannau Rheoli'r Heddlu a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, gyda'r bwriad o flaenoriaethu ymateb y Gwasanaeth Ambiwllans i'r galwadau hynny'n addas. Roedd y dull 'Gwranddo a Thrin', lle'r oedd parafeddygon a chlinigwyr nyrs yn cynnal asesiadau ffôn ac yn penderfynu ar y dull mwyaf addas o drin y claf, yn profi i fod yn llwyddiannus.
Roedd yr ystadegau ar nifer y galwadau a ddaeth i'r Gwasanaeth yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2017 a 2018, a nifer y teithiau o'r ambiwlans i'r ysbyty'n dangos llwyddiant y Model Ymateb Clinigol newydd. Er gwaethaf nifer y galwadau a gafodd y Gwasanaeth yn cynyddu, roedd nifer y teithiau i'r ysbyty mewn ambiwlans wedi lleihau, gan ryddhau'r ambiwlansys brys i fod ar gael i ymateb i argyfyngau critigol;
- rhoi gwybod i aelodau bod gan WAST darged o 65% wedi'i osod ar gyfer nifer y galwadau ymateb categori COCH i'w cyrraedd o fewn 8 munud yn Sir Ddinbych. Roedd y targed o 65% yn ystyried natur wledig y sir. Rhwng Ionawr a Mai 2018, roedd y Gwasanaeth wedi rhagori ar y targed hwn ac yn ymateb i alwadau yn y categori hwn o fewn y cyfnod amser o 8 munud mewn 80% o achosion, gyda pherfformiad yn amrywio rhwng 72.7% ac 85.4%; a
- rhoi ystadegau ar nifer yr 'oriau ambiwlans a gollwyd' oherwydd yr amser a gymerwyd y tu allan i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys i 'drosglwyddo' cleifion i ofal y Bwrdd Iechyd. Roedd nifer yr 'oriau a gollwyd' yn ardal BIPBC yr uchaf yng Nghymru yn gyson. Fodd bynnag, roedd llawer o waith wedi'i wneud yn Ysbyty Glan Clwyd gyda'r bwriad o wella perfformiad yn yr ardal hon. Roedd y dull hwn wedi bod yn llwyddiannus a bellach yn cael ei gyflwyno i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys eraill ledled Gogledd Cymru;

Rhoddodd Arweinydd Clinigol Rhanbarthol (Parafeddyg Ymgynghorol) WAST ar gyfer Gogledd Cymru drosolwg o'r prosiect peilot a wnaed, gyda'r nod o brofi a allai model cylchdroadol o weithio gan alluogi defnydd effeithiol o Uwch Ymarferwyr Parafeddygol, leihau derbyniadau ysbyty diangen.

Roedd y cynllun peilot, a ddigwyddodd rhwng Hydref 2017 a Mawrth 2018 yn cynnwys 10 Uwch Ymarferwydd Parafeddygol, gydag un wedi'i leoli yn y Ganolfan Galwadau Clinigol. Fel rhan o'r prawf, roedd yr Uwch Ymarferwyr Parafeddygol yn defnyddio'r dull 'gwrando a thrin' i benderfynu ar y llwybr gofal gorau i'r claf.

Yn ystod y cyfnod prawf 4 mis, heb unrhyw effaith andwyol yn codi:

- Cafodd 1045 o ddigwyddiadau 'cod 3 uchaf' eu trin.
- Cafodd 30% o achosion eu datrys a'u cau gan yr Uwch Ymarferwyr Parafeddygol.
- Dim ond 30% o'r galwadau a oedd angen ambiwlans brys i'w cludo i ysbyty,
- Nid oedd 70% o'r galwadau angen mynd i Adran Achosion Brys ysbyty.

O ganlyniad, roedd 307 o deithiau cludo mewn ambiwlans wedi'u hosgoi, sy'n cyfateb i 732 awr ambiwlans (neu 61 sifft 12 awr) wedi'u cadw i'w rhoi yn ôl yn y system. Roedd 95% o gysylltiadau wedi'u datrys gydag un episod o ofal, gyda lefel boddhad cleifion yn cael eu cofnodi'n 98%.

Gan fod mwyafrif yr Uwch Ymarferwyr Parafeddygol naill ai yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar hyn o bryd, neu Ysbyty Maelor, Wrecsam, roedd achos busnes yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i ehangu'r gwasanaeth ar draws Gogledd Cymru. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda'r bwriad i hyfforddi Uwch Ymarferwyr Parafeddygol i lefel hyd yn oed yn uwch – byddai hynny'n eu caniatáu i roi meddyginiaethau ar bresgripsiwn uwchlaw'r hyn y mae'r Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion yn eu caniatáu i'w rhoi ar bresgripsiwn ar hyn o bryd.

Roedd y potensial o leoli Uwch Ymarferwyr Parafeddygol mewn sefyllfaoedd gofal sylfaenol ar sail gylchdroadol hefyd yn cael ei archwilio i roi cefnogaeth i wasanaethau gofal sylfaenol. Yn wahanol i broffesiynau meddygol a nyrsio eraill, roedd parafeddygon ar hyn o bryd yn cael eu cyflogi ar sail gradd sengl. Roedd archwiliad o'r potensial i ddatblygu llwybr i gamu ymlaen mewn gyrfa, gyda'r posibilrwydd o gyflwyno graddau cyflog a fyddai'n adlewyrchu profiad, sgiliau arbenigol ac ati'n mynd rhagddo.

Yn ddiweddar, roedd y prosiect peilot wedi'i ddyfarnu â gwobr Rhagoriaeth mewn AD Academi Cymru a Healthcare People Management Association, ac wedi cyrraedd y rhestr fer yn y wobwr Categori Gwella Diogelwch Cleifion yng Ngwobrau GIG Cymru.

Fe wnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Diogelwch o Ansawdd Uchel a Phrofiad Cleifion (Nyrsio) WAST, a Chyfarwyddwr Nyrsys Gweithredol BIPBC a'r Uwch-nyrs ar gyfer Gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych, amlinellu'r peilot Llwybrau Gofal Amgen, a lanswyd yn Hydref 2017, a gwaith y Gwasanaeth Meddyg Teulu Tu Allan i Oriau i liniaru pwysau ar Adrannau Achosion Brys a gwasanaethau cleifion mewnol ysbyty.

Roedd Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ledled y DU yn profi'r galw uchaf erioed am eu gwasanaethau yn ystod gaeaf 2017/18. Roedd y broses Llwybr Gofal Amgen yn liniaru pwysau ar Adrannau Achosion Brys drwy gyfarwyddo neu gludo cleifion lle bo'n briodol i Unedau Mân Anafiadau, a oedd yn gyffredinol yn agosach at gartref y claf.

Yn yr Uned Mân Anafiadau, gallent gael y driniaeth addas gan ymarferydd nyrsio neu uwch ymarferydd nyrsio, a/neu gael eu hasesu am atgyfeiriad i wasanaethau mwy arbenigol – h.y. gofal y galon, Rheoli Diabetes, Gwasanaethau Alcohol a Chyffuriau, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac ati. Roedd gan yr Uned Mân Anafiadau amgylchedd llawer gwell i'r claf nag Adran Achosion Brys brysur, yn enwedig os oeddent ag anghenion cymhleth.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda Meddygon Teulu a'r Gwasanaeth Meddyg Teulu Tu Allan i Oriau, o ran atgyfeirio cleifion at Feddygon Teulu, ar gyfer rheolaeth gofal iechyd parhaus. Tra bod y Gwasanaeth hwn yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd i ddelio â'r cleifion hynny a ddaeth i'r Adran Achosion Brys pan fo meddygfeydd Meddyg Teulu wedi cau ac ati.

Roedd y Gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau, llinell broffesiynol ymroddedig ar gael i WAST, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill - Galw Iechyd Cymru, Nyrsys Ardal, Gwasanaethau Marie Curie ac ati – a'r cyhoedd am gyngor Meddyg Teulu ar gael rhwng 6.30pm bob nos a thros nos tan 8am o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 6.30pm ddydd Gwener ac 8am ddydd Llun am wasanaeth penwythnos.

Roedd pob galwad ffôn a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth, yn cynnwys y rhai hynny gan barafeddygon, lle cafwyd tua 80 i 100 yr wythnos, yn cael eu hadolygu drwy ddefnyddio'r wybodaeth/hanes a roddwyd gan y galwr, cyn y penderfynwyd ar y llwybr clinigol mwyaf addas. Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i ddatblygu'r Gwasanaeth ymhellach drwy gael presenoldeb Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau o fewn Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych. Byddai hyn o fudd i'r Gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau – drwy gael ei gydleoli gyda gwasanaethau ac asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol – a byddai hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i fodloni'r gofyniad o gael isafswm o ddau unigolyn ar gael yn y Gwasanaeth yn ystod penwythnosau ac ati.

Gyda newidiadau yn nemograffeg y boblogaeth a nifer gynyddol y bobl hŷn yn byw yn y gymuned, roedd breguster yn dod yn fwy cyffredin. Roedd hyn yn ei dro yn cynyddu'r galw ar wasanaethau, felly er mwyn rheoli'r galw hwnnw, roedd yn hanfodol bod yr holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol yn cydweithio'n agos, i fodloni a rheoli'r galw cynyddol, drwy ddyfeisio llwybrau gofal amgen i gefnogi unigolion.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau, fe wnaeth cynrychiolwyr WAST a BIPBC, ynghyd ag Aelod Arweiniol Sir Ddinbych dros Annibyniaeth a Lles, a Phennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol:

- roi gwybod bod cyfeiriad y daith a amlinellwyd gan WAST a BIPBC yn eu cyflwyniadau'n mynd yn dda gyda'r hyn yr oedd y Cyngor am ei gyflawni, yn enwedig o ran rheoli'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad;
- rhoi gwybod mai'r prif fater i wasanaethau gofal cymdeithasol oedd amseroedd aros i'r ambiwlans gludo unigolion a aseswyd bod angen eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl;

- rhoi gwybod bod WAST ar hyn o bryd yn edrych ar ei Gynllun Iechyd Cyhoeddus i sicrhau ei fod yn ategu at ei holl gynlluniau gweithredol a'i Gynllun Lles;
- cytuno bod angen a dyletswydd i addysgu a chyfathrebu gyda phreswylwyr ynghylch pryd i gysylltu â'r Gwasanaeth Ambiwlans a pha wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol eraill y dylid eu hystyried cyn ffonio 999;
- cadarnhau bod pob Uned Mân Anafiadau yn Sir Ddinbych, ac ar draws Gogledd Cymru, wedi bod ynghlwm wrth y peilot Llwybrau Gofal Amgen;
- cadarnhau bod WAST yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar nifer o fentrau. Roedd uchelgais o hyd i gyflwyno cyd-ymateb ar draws Gogledd Cymru, lle byddai staff y Gwasanaeth Tân ac Achub a phersonél y Gwasanaethau Ambiwlans yn ymateb gyda'i gilydd i ddigwyddiad, gyda'r bwriad o ddechrau'r driniaeth addas i'r claf yn syth wedi i'r cerbyd argyfwng cyntaf gyrraedd digwyddiad. Roedd gan y ddau wasanaeth drefniadau rhannu data hefyd. Fe wnaeth staff y Gwasanaeth Tân ac Achub a oedd yn cynnal Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref hefyd nodi peryglon baglu neu lithro posibl mewn cartref unigolyn, unrhyw arwyddion o afiechyd, camdriniaeth neu esgeulustod, materion ffordd allan a pharatoi cynlluniau gadael mewn achos o argyfwng, y gallai pob un ohonynt fod yn wybodaeth werthfawr i wasanaethau eraill, fel y Gwasanaeth Ambiwlans os oeddent yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad penodol hwnnw yn y dyfodol. Roedd WAST hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Heddlu mewn perthynas â phryderon diogelu a/neu arwyddion o ddementia. Po fwyaf oedd yr wybodaeth y gallai asiantaethau ei rhannu am unigolion yr oeddent yn ymgysylltu â nhw, y gorau fyddai'r lefel o ofal y gallai gwasanaethau eraill eu rhoi i'r unigolion hynny pan fyddai'r angen yn codi;
- cydnabod nad oedd Uwch Ymarferwyr Parafeddygol wedi'u hyfforddi gan Feddyg Teulu, nid oedd disgwyl iddynt fod â'r wybodaeth a chyfres sgiliau Meddygon Teulu. Roedd eu sgiliau'n fwy helaeth na pharafeddygon, ac felly roeddent yn adnodd ategol a allai roi ymyrraeth gynnar a gofal i glaf, ac o bosibl, atal yr angen am ragor o ymyrraeth feddygol mwy cymhleth yn hwyrach ymlaen. Roeddent hefyd â'r wybodaeth a'r profiad i benderfynu ar y llwybr gofal cam nesaf mwyaf addas i'r claf, os oedd angen un;
- cytuno gydag aelodau Pwyllgor bod yr Ymatebwyr Cyntaf gwirfoddol yn allweddol i ardaloedd gwledig gan fod ganddynt y sgiliau i nodi ataliad y galon, mynediad at ddiffibrilwyr a'r sgiliau i'w defnyddio, yn ogystal â'r wybodaeth i ddelio ag achosion o faglu a chwympo;
- rhoi gwybod bod nifer y gwelyau ar gael ym mhob Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn benderfyniad y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, roedd y galw am welyau yn yr adrannau hyn yn amrywio bob dydd ac yn anodd iawn i'w ragweld h.y. roedd Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd wedi rhagweld 60 ambiwlans i gludo cleifion i'r Adran y diwrnod blaenorol, y cyfanswm gwirioneddol ar ddiwedd y dydd oedd 68 ambiwlans yn cludo cleifion i'r Adran. Er iddynt gael mwy o ambiwlansys na'r disgwyl, roedd yr Adran wedi gallu delio'n ddiogel â'r cleifion;
- rhoi gwybod i aelodau bod yr oedi a gafwyd wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai rhanbarth cyffredinol yn deillio o'r Bwrdd Iechyd yn methu â rhyddhau cleifion i lefydd diogel eraill h.y. eu cyfeiriad cartref, ysbyty cymunedol ac ati. Yn gyffredinol, o ran rhyddhau pobl i'w cyfeiriad cartref, cafwyd problem gydag oedi wrth drefnu pecynnau gofal i'r unigolion dan sylw;

- cadarnhau, gyda'r bwriad o gynorthwyo preswylwyr i gael y gwasanaethau cywir gyda'u galwad ffôn cyntaf, bod WAST yn archwilio'r dichonoldeb o sefydlu 'Canolbwynt Clinigol' yng Ngogledd Cymru. Y bwriad oedd y byddai pobl sy'n deialu 999 neu 111 yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth cywir. Roedd gwasanaeth tebyg eisoes yn gweithredu yn ardal Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg. Gobeithiwyd y byddai cam cyntaf y gwasanaeth hwn ar gael yn ardal BIPBC mewn pryd ar gyfer y gaeaf sydd i ddod, gyda'r bwriad o adeiladu ar y gwasanaeth sydd ar gael drwy'r Canolbwynt yn y dyfodol;
- rhoi gwybod bod Ambiwlansys sy'n aros er mwyn ymateb i alwadau brys wedi'u lleoli mewn Gorsafoddedd Ambiwlans ac mewn cilfannau ger ochr y ffordd. Roedd penderfyniadau o ran eu lleoliadau wedi'i seilio ar gyflawni'r cwrpas gorau y gallai cerbyd argyfwng ei roi i'r ardal honno ar yr adeg benodol honno;
- egluro bod y cyfleuster Gwiriwr Symptomau ar wefan Galw Iechyd Cymru'n nodwedd eithriadol o ddefnyddiol i'r cyhoedd. Yn y dyfodol, gydag esblygiadau technolegol, gall gwasanaethau defnyddiol eraill fod ar gael i ddyfeisiau symudol;
- cadarnhau bod WAST a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos gyda phob un o'r 6 gwasanaeth Un Pwynt Mynediad yng Ngogledd Cymru ac yn atgyfeirio achosion atynt. Disgwylwyd unwaith y byddai ar ei draed, y byddai'r gwasanaeth Canolbwynt Clinigol newydd hefyd yn cyfeirio pobl at yr Un Pwynt Mynediad ar gyfer eu hardal. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol i WAST, BIPBC a gwasanaethau rhanbarthol ac isranbarthol eraill gael un rhif ffôn penodol a fyddai'n eu cysylltu at yr Un Pwynt Mynediad, yn hytrach na chael chwe rhif ffôn gwahanol iddynt, fel a geir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roeddent o'r farn y byddai gweithio'n agosach rhwng pob asiantaeth yn hanfodol os oedd pwysau demograffig am gael eu rheoli'n effeithiol;
- rhoi gwybod bod cynrychiolwyr WAST yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru (SG) a Phrif Weithredwyr y saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru; a
- chadarnhau bod y cynnig i gyflwyno'r Gwasanaeth Uwch Ymarferwyr Parafeddygol ar draws Gogledd Cymru bellach yn ffurfio rhan o gynllun busnes WAST am y flwyddyn i ddod. Roedd y Gwasanaeth a'r Bwrdd Iechyd hefyd yn archwilio'r hyfywedd o ehangu ar oriau agor Uned Mân Anafiadau a fferyllfeydd a weithredir gan wasanaeth iechyd.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol am wneud ymholiadau ynghylch unrhyw ddata y gallai'r Cyngor eu rhannu gyda WAST – gan ei fod yn ymwybodol bod y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd er enghraifft yn cadw gwybodaeth yn dilyn ymweliadau Iechyd Amgylcheddol, neu ymweliadau gorfodi i Dai Amlfeddiannaeth.

Dywedodd cynrychiolwyr WAST a BIPBC os byddai aelodau Pwyllgor yn dymuno ymweld â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd, y byddent yn hwyluso ymweliad.

Ar ddiwedd y drafodaeth diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr WAST a BIPBC am fynychu, am roi eu cyflwyniad ac ateb cwestiynau'r Aelodau. Fe'i llongyfarchodd am y gwelliannau i'r Gwasanaethau Ambiwlans a Thu Allan i Oriau, a'u hannog i

barhau i anelu at wella gwasanaethau ar gyfer preswylwyr y sir, gan fod gwasanaethau iechyd yn cyffwrdd bywyd pob preswlydd. Felly:

Penderfynwyd: - yn amodol ar yr arsylwadau uchod, i dderbyn y cyflwyniadau gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a'r Gwasanaeth Meddyg Teulu Tu Allan i Oriau.

6 MYNWENTYDD CYNGOR SIR DDINBYCH

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Dai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd yr adroddiad ar y cyd (a gylchredwyd yn flaenorol) gan yr Uned Waith a'r Rheolwr Strydwedd a'r Rheolwr Strydwedd (Gogledd), a ddiweddarodd aelodau ar faterion rheoli'n ymwneud â mynwentydd ym mherchnogaeth y Cyngor Sir, yn cynnwys capasiti gweddilliol mynwentydd ar draws y sir, a'r ardaloedd risg posibl o ran capasiti claddedigaethau yn y dyfodol. Eglurodd ymhellach fod yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig yn ceisio safbwyntiau'r Pwyllgor ar y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd claddu a mynwentydd ym mherchnogaeth y sir, a ddylai grŵp tasg a gorffen gael ei sefydlu i ystyried capasiti'r dyfodol mewn mynwentydd, ac fe amlinellodd hefyd y weithdrefn cynnal a chadw cyfredol a pholisïau rheoli ar gyfer y mynwentydd. Rhoddodd yr Aelod Arweiniol wybod bod Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn codi'r ffioedd claddedigaethau isaf yng Ngogledd Cymru, a dyma'r rheswm dros gynnig y cynnydd o 5% mewn ffioedd. Hyd yn oed pe bai'r cynnydd o 5% yn cael ei gymeradwyo, byddai Sir Ddinbych yn dal yn un o'r awdurdodau a fyddai'n codi'r ffioedd claddedigaethau isaf yn y rhanbarth.

Tynnodd Bennaeth y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol sylw'r aelodau at Atodiad 5 yr adroddiad, a oedd yn cynnwys canlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd yn 2004 gan y Grŵp Tasg a Gorffen Craffu ar gynnig i ddatblygu mynwent newydd i'r Rhyl. Roedd yr astudiaeth ddichonoldeb wedi'i gwneud ar yr adeg honno oherwydd y nifer gyfyngedig o leiniau newydd ar gael ym mynwent y dref. Fodd bynnag, oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â datblygu mynwent newydd, yr argymhelliad oedd peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig. Ers hynny, roedd mynwent y dref wedi cau i gladdedigaethau newydd. Roedd gweddill y mynwentydd ym mherchnogaeth y Cyngor ar draws y sir â chapasiti ar hyn o bryd i gynnwys claddedigaethau newydd. Roedd capasiti claddedigaethau'n amrywio rhwng mwy na 1,000 llain yng Nghoed Bell, Prestatyn i 55 yn Llanrhydd, Rhuthun

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol, y Pennaeth Gwasanaeth a'r swyddogion:

- fod y ffioedd claddedigaethau a amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad yn ffioedd a godir ar breswylwyr Sir Ddinbych. Caniatwyd claddu preswylwyr nad oeddent o Sir Ddinbych ym mynwentydd y sir, fodd bynnag, roedd ffioedd yn cael eu dyblu ar gyfer y preswylwyr hynny. Fodd bynnag, roedd unigolion a theuluoedd yn fodlon talu'r gost ychwanegol;
- cadarnhau nad oedd gan y Cyngor ddigon o gapasiti i gynnal gwaith cynnal a chadw tiroedd ym mynwentydd lawnt y sir, a dyma'r rheswm y cafodd ei contractio'n allanol i contractwr allanol. Ar hyn o bryd roedd contract tymor byr gyda chontractwr allanol ar gyfer cynnal a chadw tiroedd y mynwentydd yn ei le am y flwyddyn gyfredol. Roedd Swyddogion ar hyn o bryd yn

archwilio'r posibilrwydd o ymgorffori'r contract cynnal a chadw tiroedd mynwentydd gyda'r contract torri ymylon gwair priffyrdd o Fawrth 2019;

- cydnabod dyheadau rhai aelodau i gael y gwaith cynnal a chadw tiroedd wedi'i wneud yn fewnol. Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor ar hyn o bryd â'r gallu i wneud y gwaith hwn, ac yn yr hinsawdd ariannol gwasanaethau cyhoeddus cyfredol, roedd yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i wneud y gwaith hwn yn fewnol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, oni bai bod arian referniw'n cael ei ddargyfeirio i'r Gwasanaeth o wasanaethau 'rheng flaen';
- cadarnhau bod y manylion contract cynnal a chadw tiroedd cyfredol yn nodi'r safon o dorri sy'n ofynnol, yr angen i glirio'r toriadau dros ben, atebolrwydd am ddifrod i gerrig beddi ac ati. Roedd pob agwedd a gynhwysir yn y manylion contract yn cael eu monitro'n rheolaidd fel rhan o broses monitro contractau'r Cyngor;
- rhoi gwybod bod Rheoliadau Mynwentydd y Cyngor yn cynnwys manylion y rheoliadau a'r manylion mewn perthynas â chofebion a ganiateir mewn mynwentydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Roedd hwn yn nodi nad oedd teyrngedau neu addurniadau'n cael eu caniatáu yn is i lawr ar y bedd na gwaelod y garreg fedd, ac na chaniatawyd golau solar mewn mynwentydd. Roedd teuluoedd yn cael gwybod am y rheolau hyn wrth brynu llain gladdu a phe bai addurniadau ac ati'n cael eu gosod ar fedd, y byddai'r Cyngor yn mynd â nhw oddi yno ac yn eu cadw i'r teuluoedd drefnu i'w casglu. Fodd bynnag, roedd cyfnod addas o alaru'n cael ei ganiatáu yn dilyn y gladdedigaeth cyn tynnu unrhyw deyrngedau neu addurniadau oddi yno. Roedd Swyddogion yn cael eu cyfarwyddo'n gyson i orfodi'r polisi ar draws y sir, gan fod defnyddio disgresiwn â'r potensial i danseilio'r polisi hwn;
- cadarnhau bod placiau coffa ar feinciau ac ati ym mynwentydd y Sir bellach yn gorfod cydymffurfio â manylebau safonol;
- ail-gadarnhau, oherwydd cyfrifoldebau iechyd a diogelwch, na allai'r Cyngor ganiatáu contractwyr allanol neu drefnwyr angladdau i agor beddi newydd neu ail-agor rhai presennol. Roedd y Cyngor yn caniatáu claddedigaethau ar ddydd Sadwrn os oedd staff ar gael ac yn fodlon gweithio goramser ar gyfer hyn. Roedd y costau staffio ychwanegol yna'n cael eu hadlewyrchu yn y ffioedd a godwyd am y gladdedigaeth. Fodd bynnag, roedd y cais am gladdedigaethau ar ddydd Sadwrn yn isel, yn llai na 10 y flwyddyn, felly nid oedd yn hyfyw newid telerau ac amodau cyflogaeth staff i gynnwys gweithio ar ddyddiau Sadwrn i fodloni'r galw;
- cadarnhau, oherwydd y costau sydd ynghlwm wrth unrhyw gynllun o'r fath, nad oedd unrhyw waith pellach wedi'i wneud yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb 2004 ar ddatblygu mynwentydd newydd yn y sir;
- rhoi gwybod bod arolygon diweddar ledled y DU wedi dangos bod tua 58% o bobl yn dangos bod yn well ganddynt amlosgiad yn hytrach na chladdedigaeth;
- cadarnhau y byddai Sir Ddinbych yn dal ag un o'r ffioedd isaf am gladdedigaethau yng Ngogledd Cymru, er bod cynnydd o 5% mewn ffioedd claddedigaethau'n edrych yn uchel. Os cefnogir y cynnydd hwn, byddai yna'n ddoeth cynyddu'r ffioedd o gyfradd canran llawer is ar sail flynyddol, er mwyn bod ar yr un lefel ag awdurdodau eraill; a
- chadarnhau nad oedd unrhyw hawliau arbennig o weithredoedd claddedigaethau ar gyfer lleiniau ym mynwentydd y Cyngor yn gallu cael eu prynu ymlaen llaw, ac unwaith bod hawliau arbennig gweithred

claddedigaeth wedi'u prynu, nad oedd unrhyw ffioedd cynnal a chadw pellach ac ati'n cael eu codi ar gyfer y llain honno

Cyfeiriwyd gan aelod at bolisi Dinas Llundain o ganiatáu ail-brydlesu beddi, lle'r oedd pryddes gyfredol wedi'i dileu, ar gyfer claddedigaethau newydd, ar yr amod bod unrhyw gofebion ar y bedd yn cael eu hailwampio'n llwyr gyda'r garreg fedd wreiddiol yn cael ei throï i adael yr arysgrif wreiddiol ar y cefn, a'r arysgrif newydd wedi'i hysgythru ar y blaen. Holodd Aelodau a fyddai hyn yn ateb tymor hir i'r diffyg capasiti yn rhai o fynwentydd Sir Ddinbych. Roedd Swyddogion am wneud ymholiadau ynghylch yr awgrym hwn, ac ar faint o amser y caniatawyd hawliau arbennig claddedigaethau ar feddi Sir Ddinbych. Roeddent hefyd am gadarnhau a oedd arwydd yn un o fynwentydd y sir yn datgan 'ni chaniateir golau solar' yn ansensitif ac i roi gwybodaeth ynghylch a oedd cost hawl claddedigaethau arbennig a ffioedd claddedigaethau eraill yn cwmpasu costau rhedeg a chynnal a chadw mynwentydd y sir yn y tymor hir.

Roedd y Pwyllgor yn gadarn o'r safbwynt, yn seiliedig ar y capasiti ar gael mewn mynwentydd a redir gan y cyngor, a oedd yn bellter teithio rhesymol i berthnasau, a'r costau ynghlwm wrth sefydlu mynwentydd newydd, nad oedd angen sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Craffu i ystyried y mater o gapasiti mynwentydd y dyfodol yn y sir. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y byddai swyddogion yn mynd i Grŵp Ardal Aelodau Elwy a Grŵp Ardal Aelodau y Rhyl i drafod yr heriau ac atebion posibl.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod

- (i) nad oedd angen sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Craffu i ystyried y mater o gapasiti'r dyfodol ym mynwentydd y Cyngor;***
- (ii) cefnogi'r polisiâu presennol yn ymwneud â rheoli mynwentydd y cyngor; a***
- (iii) chefnogi'r cynigion i gynyddu ffioedd claddedigaethau, i ddod â ffioedd Sir Ddinbych yn unol ag awdurdodau cyfagos***

Gofynnodd y Cyngorydd Glenn Swingler a oedd modd cofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn yr argymhelliad uchod.

7 RHAGLAN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o Ffurflen Cynigion Aelodau wedi ei chynnwys yn Atodiad 2. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a'r cynnydd a wnaed o ran eu gweithrediad wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Atgoffwyd Aelodau bod gwyliau Awst ar y gweill, ond byddai unrhyw ffurflenni cynnig craffu a ddaw i law hyd at ganol Awst yn cael eu hystyried yng Ngrŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu 6 Medi.

Roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym Medi â dwy eitem bwysig – y Model Gwastraff ac Ailgylchu arfaethedig newydd a gweithredu'r cynnig gofal plant am ddim gan Lywodraeth Cymru yn Sir Ddinbych. O ystyried y diddordeb cyhoeddus posibl yn y ddwy eitem, byddai'r cyfarfod yn cael ei weddarlleu.

Cytunwyd y byddai'r adroddiad ar Reoli Twristiaeth, Digwyddiadau a Chyrchfannau'n cael ei ohirio i gyfarfod Hydref y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD - yn amodol ar yr uchod, i gymeradwyo'r penodiadau a Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod:	6 Medi 2018
Aelod Arweiniol:	Yr Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc
Awdur yr Adroddiad:	Pen Reolwr: Ymyrryd, Atal, Iechyd a Lles
Teitl:	Rhoi Cynnig Gofal Plant Am Ddim Llywodraeth Cymru ar waith yn Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai erbyn 2020 yn cynnig deg awr ar hugain yr wythnos o ofal plant ac addysg blyneddodd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed y mae eu rhieni'n gymwys ac yn gweithio, a hynny am 48 wythnos o'r flwyddyn.

Nod y Cynnig Gofal Plant yw galluogi rhieni cymwys i gael gwell dewis o waith, rhoi mwy o incwm gwario i bobl sy'n dlawd oherwydd cyflogau isel, a sicrhau y darperir gofal plant er mwyn hybu datblygiad plant a'u paratoi ar gyfer mynd i'r ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y gall Cyngor Sir Ddinbych ddechrau darparu'r Cynnig Gofal Plant i deuluoedd o fis Ebrill 2019 ymlaen, ac wedi cytuno cydweithio â'r Cyngor fel y gellir cyflwyno'r Cynnig ymhob rhan o'r sir yr un pryd, yn hytrach na'i gyflwyno'n raddol fesul ward.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ceisio barn y Pwyllgor Craffu ar y bwriad i weithredu cynnig Gofal Plant am ddim Llywodraeth Cymru yn Sir Ddinbych o fis Ebrill 2019 ymlaen.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod yr Aelodau'n craffu ar y cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yn Sir Ddinbych i gyd ar unwaith, ar sail y cytundeb sydd wedi'i wneud â Llywodraeth Cymru, a'u cymeradwyo.
- 3.2 Bod yr aelodau'n cymeradwyo'r cynllun cyflawni rhyng-sirol a gynigir ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint.
- 3.3 Bod yr aelodau'n cytuno i graffu ymhellach ar gynllun wrth gefn i gyflwyno'r Cynnig fesul ward yn nhrefn blaenoriaeth, pe na fyddai Llywodraeth Cymru, am ba bynnag reswm, yn cadarnhau cyllid ar gyfer ei gyflwyno ledled y sir ar unwaith.

4. Manylion yr Adroddiad

Cefndir

Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru'n darparu gofal plant a ariennir gan y llywodraeth sy'n cynnwys darpariaeth Hawl Bore Oes a Meithrin yn y Cyfnod Sylfaen am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn. Bydd modd i blant cymwys fanteisio ar y cynnig o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed tan y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Gallai plant cymwys fod â hawl i dderbyn hyd at 20 awr o ofal plant am ddim yn ystod y tymor ar ben y 10 awr a ddarperir eisoes gan y Cyfnod Sylfaen bob wythnos. Yn ystod gwyliau'r ysgol, pan nad yw'r plentyn yn derbyn addysg gynnar, bydd y cynnig yn darparu 30 awr yr wythnos o ofal plant am hyd at naw wythnos.

Gall rhieni ddewis unrhyw leoliad gofal plant sy'n addas i'w hamgylchiadau personol a theuluol, boed o fewn neu du allan i'r sir, gyda chytundeb y darparwr a'r awdurdod lleol. Nid oes yn rhaid i'r gofal plant fod wedi'i ddarparu gan yr un darparwr â'r addysg feithrin yn y Cyfnod Sylfaen, felly gall plant fynychu hyd at ddau leoliad gofal plant yn ogystal â'r lleoliad addysg feithrin ar unrhyw ddiwrnod unigol.

Nid yw'r Cynnig Gofal Plant yn destun prawf moddion, a bydd ar gael i bob rhiant sy'n gweithio ac yn byw'n barhaol yng Nghymru ac yn ennill incwm cyfwerth ag o leiaf 16 awr ar gyfradd y cyflog byw cenedlaethol neu'r isafswm cyflog cenedlaethol. O ran cyplau, mae'n rhaid bod y naill riant a'r llall yn gweithio ac yn bodloni'r gofynion uchod. Pennir uchafswm incwm ar gyfer rhieni sy'n gweithio, sef £100,000 yr un.

Ceir mwy o wybodaeth ar wefan Cyngor Sir Ddinbych¹.

Darparu'r Cynnig Gofal Plant yn Sir Ddinbych

Mae dull Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru'n seiliedig ar brofiadau ac arbenigedd y saith o awdurdodau lleol a weithredodd y cynnig yn gynnar, ac sydd eisoes wedi datblygu systemau gweithredol i weinyddu'r Cynnig Gofal Plant. Geilw Llywodraeth Cymru'r rhain yn 'Awdurdodau Cyflawni' ac maent yn gyfrifol am brosesu ceisiadau gan rieni, penderfynu a ydynt yn gymwys, a'u hysbysu o'r canlyniad. Byddant hefyd yn prosesu a throsglwyddo taliadau i ddarparwyr gofal plant sy'n gweithredu'r Cynnig.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint, a fydd yn gweithredu fel Awdurdod Cyflawni ar ein cyfer. Ar 24 Mai 2018 penderfynodd Cydbwyllgor Craffu Addysg ac Ieuenctid ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir y Fflint gymeradwyo'r cynnig i weithredu fel Awdurdod Cyflawni ar gyfer Sir Ddinbych a Wrecsam².

Bydd gan Sir Ddinbych swyddogaeth 'Awdurdod Ymgysylltu' a bydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i rieni a darparwyr gofal plant yn y Sir, hyfforddi staff i ymdrin ag ymholiadau ynglŷn â'r Cynnig, a darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol i Sir y Fflint fedru

¹ <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/cymunedau-a-byw/gofal-plant-a-rhianta/30-awr-o-ofal-plant-am-ddim-i-blant-3-a-4-oed/30-awr-o-ofal-plant-am-ddim-i-blant-3-a-4-oed.aspx>

² <http://cyfarfodyddpwylgor.sirffflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=474&MId=4224&Ver=4&LLL=1>

prosesu ceisiadau a gweinyddu'r Cynnig. Bydd Sir Ddinbych yn derbyn grant penodol ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth honno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i weithio gyda Sir Ddinbych wrth baratoi ar gyfer darparu'r Cynnig Gofal Plant i'r holl rieni cymwys yn y sir o fis Ebrill 2019 ymlaen.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y Cynnig yn ategu ein blaenoriaeth gorfforaethol i weithio gyda phobl a chymunedau i hybu annibyniaeth a chadernid. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn rhoi cymhelliad i deuluoedd weithio, sy'n golygu y bydd ganddynt fwy o incwm gwario, ac yn lliniaru ar dlodi lle mae pobl yn derbyn cyflogau isel. Wedi arfarnu'r ddarpariaeth gynnar gan awdurdodau eraill ceir tystiolaeth fod rhieni wedi dychwelyd i'r gwaith neu gynyddu eu horiau o ganlyniad i'r Cynnig. Gall y Cynnig wneud gwahaniaeth mawr i deuluoedd yn ariannol, ac amcangyfrifir ei fod yn werth mwy na £5,000 y flwyddyn i bob plentyn.

Mae'r Cynnig hefyd yn ategu blaenoriaeth y Cyngor i gefnogi pobl ifanc, yn benodol drwy roi cymorth i rieni roi'r cychwyn gorau i'w plant, a helpu pobl ifanc i fagu sgiliau byw ymarferol a dysgu ymddwyn mewn ffyrdd sy'n hybu eu hiechyd a'u lles. Un o nodau allweddol y Cynnig Gofal Plant yw cefnogi teuluoedd drwy ddarparu gofal graenus a hyblyg sy'n hyrwyddo lles eu plant drwy hybu eu datblygiad a'u paratoi ar gyfer mynd i'r ysgol.

Ceir cyfle hefyd i gyfrannu at ein nod o sicrhau ei bod yn rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bobl ifanc, a hynny drwy weithio gyda'n partneriaid, ysgolion a busnesau. Bydd y Cynnig Gofal Plant hefyd yn cyfrannu at adfywio economaidd drwy helpu i gynnal ac adnewyddu'r sector gofal plant yn Sir Ddinbych, gan greu cyfleoedd am waith a gwella ansawdd y gofal a'r dewis sydd ar gael i rieni.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd grant refeniw penodol yn talu holl gostau gweithredu a darparu'r Cynnig Gofal Plant yn Sir Ddinbych. Bydd Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth â Sir y Fflint, a fydd yn gweithredu fel Awdurdod Cyflawni ar ein cyfer ac yn gyfrifol am asesu cymhwyster rhieni a thalu darparwyr gofal plant o'r grant gan Lywodraeth Cymru.

Ar ben y taliadau i ddarparwyr gofal plant bydd yno gostau refeniw'n gysylltiedig â'r dyletswyddau gweinyddol y bydd yn rhaid i swyddogion Sir Ddinbych eu cyflawni wrth weithredu'r Cynnig Gofal Plant yn y sir. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y caiff y costau hynny hefyd eu hariannu'n llawn drwy grant penodol. Ni fydd y Cynnig Gofal Plant yn creu'r angen i'r Cyngor dalu costau nad oes arian wedi'u neilltuo ar eu cyfer yn y Gyllideb.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid yw'n ofynnol gwneud asesiad o'r effaith yn lleol gan mai cynllun cenedlaethol yw hwn y mae Llywodraeth Cymru'n ei weithredu.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Cynllun Llywodraeth Cymru yw hwn, a chafwyd ymgynghoriad cenedlaethol yn ei gylch drwy'r ymgyrch 'Dweud eich dweud ar ofal plant'³. Wrth ymgynghori daeth i'r amlwg mai'r materion o bwys i deuluoedd oedd costau gofal plant yn eu rhwystro rhag dychwelyd i'r gwaith, pryderon ynghylch plant yn mynd i nifer o wahanol leoliadau bob dydd, a hyblygrwydd a hygyrchedd darparwyr gofal plant o ran eu lleoliad, amserau agor, darpariaeth Gymraeg a darpariaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Rydym hefyd wedi ymgynghori'n lleol ynghylch ein dull o ddarparu'r Cynnig yn Sir Ddinbych gyda'r grwpiau canlynol: y Bartneriaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, y Fforwm Gofal Plant, Cadeiryddion Clystyrau Ysgolion, darparwyr gofal plant a phartneriaid yn y Gynhadledd Gofal Plant flynyddol. Yn sgil hyn mae cwestiynau wedi codi'n bennaf ynglŷn â goblygiadau'r Cynnig Gofal Plant a'r agweddau ymarferol ar ei weithredu. Bu hynny'n sail ar gyfer ein cynlluniau ac fe gadarnhaodd ein barn mai cyflwyno'r Cynnig ymhob rhan o Sir Ddinbych ar yr un pryd fyddai'r peth tecaf i'n cymunedau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fe'i gwneir yn glir yn yr adroddiad y caiff holl gostau gweithredu a darparu'r Cynnig Gofal Plant yn Sir Ddinbych eu hariannu drwy grant refeniw penodol gan Lywodraeth Cymru, ac y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu costau gweinyddu a hyfforddi. Ar sail hynny, cefnogaf yn llwyr y dull gweithredu a gaiff ei argymhell yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Ceir crynodeb yn y gofrestr risg sydd ynghlwm (Atodiad 4).

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 7.2.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn datgan y gall Craffu "ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal y Cyngor neu'r trigolion".

Swyddog Cyswllt:

Pen Reolwr: Ymyrryd, Atal, Iechyd a Lles

Ffôn: 01824 712978

³ <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/talk-childcare/?skip=1&lang=cy>

Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar
Deputy Director Childcare, Play and Early Years Division



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

To: Judith Greenhalgh,
Chief Executive,
Denbighshire County Council,

Cc: Karen Evans,
James Wood,
Dawn Anderson

20 March 2018

Dear Judith,

As you know the Welsh Government has been working with seven local authorities across Wales to deliver the childcare offer since September 2017. The Welsh Government remains committed to delivering the childcare offer across the whole of Wales by September 2020. Ahead of that we would like to expand the programme of early implementation, enabling us to test the offer in as many authorities as possible before full roll out. To achieve this we have agreed a rolling programme of early implementation, setting out when each local authority will become an early implementer.

Determinations around the rolling programme are based on the information supplied by the 15 local authorities not currently delivering the childcare offer in January, and discussions held with relevant Directors and senior officials regarding the strategic vision for the childcare offer and proposals for further roll out.

Having fully considered the information in the round I would like to invite Denbighshire County Borough Council to begin to deliver the childcare offer within some agreed wards from April 2019.

With regards to the strategic roll-out of the childcare offer across the whole of Wales we wish to make the process as uniform as possible, and to achieve maximum value for money for the administration of the process. Consequently we want the further roll-out of the childcare offer to be driven by the following principles:

- the process for applying for the offer should be as uniform as possible for parents;
- the process for payments to childcare providers to be as straightforward as possible particularly so if they are delivering childcare for parents from more than one local authority;
- reducing the duplication of effort in developing systems and processes;

- build on existing best practice and reducing the differences in approach across Wales; and
- achieving economies of scale.

Further to this, you will be aware that we are in discussions with HMRC about a longer-term on-line application process for parents to apply for the childcare offer and for childcare providers to receive payment. Consequently we wish to minimise the cost to Wales of developing multiple processes that will become redundant in 2020.

Given the existing Early Implementer Local Authorities (EILAs) have already developed operational systems to deliver the offer we are proposing a new delivery model for further roll out of the offer. The model will operate on a regional education improvement consortia basis and will see new early implementer local authorities (NEILAs) working in partnership with existing EILAs.

There will be two categories of local authority within an Education Improvement Consortia region; a delivery authority and an engagement authority:

- **Delivery Authorities** will be responsible for processing applications from parents, determining eligibility and informing them of the outcome. They will also process and make payments to childcare providers for delivering the offer.
 - mae'n debygol y byddai'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol fel arall oherwydd pryderon ynghylch lles y plentyn.
33. Gall gofalmwr maeth ddefnyddio eu lwfans gofal maeth fel prawf o enillion er mwyn bodloni'r meini prawf isafswm incwm ar gyfer y cynnig. Os yw gofalmwr maeth yn bodloni'r meini prawf cymhwysra ehangach, gall fanteisio ar y cynnig gofal plant ar gyfer ei blentyn/phlentyn ei hun ac ar gyfer y plentyn maeth, cyn belled â bod hynny'n unol â chynllun gofal y plentyn maeth.
34. Os yw rhiant ar absenoldeb mabwysiadu, gall barhau i fanteisio ar y cynnig. Fodd bynnag, os yw ar absenoldeb mabwysiadu ar gyfer plentyn 3-4 oed, ni fydd yn gymwys i hawlio'r cynnig ar gyfer y plentyn hwnnw.
35. Yr unig eithriadau lle nad oes rhaid i'r ddau riant (mewn teulu â dau riant) fodloni'r meini prawf o ran enillion yw:
 - lle mae un rhiant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sydd o leiaf yn cyfateb i 16 awr ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) a lle mae gan un rhiant gyfrifoldebau gofalu sylweddol yn seiliedig ar fudd-daliadau penodol a geir am ofalu; neu
 - lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sydd o leiaf yn cyfateb i 16 awr ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ond bod un rhiant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb rhiant, mamolaeth neu fabwysiadu; neu
 - lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sydd o leiaf yn cyfateb i 16 awr ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ond bod un rhiant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gwaith dros dro ar

- dâl salwch statudol; neu
- Ile mae un rhiant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sydd o leiaf yn cyfateb i 16 awr ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) a bod un rhiant yn anabl neu wedi'i analluogi yn seiliedig ar dderbyn budd-daliadau penodol; neu
- Ile mae rhiant newydd ddod yn hunangyflogedig, ac o fewn y cyfnod dechrau cychwynol. Bydd angen i rieni gofrestru eu busnes gyda Chyllid a Thollau EM a darparu tystiolaeth eu bod yn hunangyflogedig er mwyn bod yn gymwys.

Absenoldeb Rhiant Statudol Di-dâl

36. O dan adran 76 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, gall person gymryd 18 wythnos o absenoldeb rhiant di-dâl ar gyfer pob plentyn nes bod y plentyn yn 18 oed. Fel arfer, byddai hyn yn cael ei gyfyngu i uchafswm o 4 wythnos y flwyddyn ar gyfer pob plentyn. Fodd bynnag, yn achos gweithwyr sy'n cyrraedd diwedd eu habsenoldeb mamolaeth, mae'n bosibl defnyddio'r cyfod llawn o absenoldeb rhiant di-dâl yn syth ar ôl i'r absenoldeb mamolaeth ddod i ben. Yn y naill achos a'r llall, bydd y gweithwyr hyn yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y cynnig cyn belled â bod ganddynt lythyr gan y cyflogwr sy'n datgan eu bod wedi'u cyflogi, eu bod fel arfer yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a'u bod yn ar absenoldeb rhiant cymwys.

Amgylchiadau teuluol cymhleth

37. Mewn achosion lle mae rhieni wedi gwahanu ond lle nad ydynt yn rhannu gwarchodaeth gyfartal am y plentyn, rydym yn cynghori'r rhiant â phrif warchodaeth i fod yr un yr ystyrir ei fod yn gymwys i hawlio'r cynnig.
38. Mewn achosion lle mae gan rieni warchodaeth gyfartal am blentyn, rydym yn cynghori y bydd angen i un o'r rhieni gael ei enwebu i weithredu fel y rhiant arweiniol ac y bydd angen iddo ef neu iddi hi fodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y cynnig. Lle nad yw'r rhieni'n gallu cytuno ar hyn, dylid cyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar er mwyn penderfynu yn ei glych.
39. Bydd angen i wŷr, gwragedd neu bartneriaid cyd-fyw rhieni â phrif warchodaeth, neu wŷr, gwragedd neu bartneriaid cyd-fyw rhieni arweiniol mewn achosion o warchodaeth ar y cyd, fodloni'r meini prawf cymhwystra hefyd er mwyn i'r teulu gael y cynnig.
40. Ni fydd angen i oedolion eraill (megis lletywyr, aelodau o'r teulu estynedig neu frodyr/chwiorydd) sy'n byw yn y tŷ fodloni'r meini prawf, oni bai eu bod nhw hefyd yn un o brif warcheidwad y plentyn. Er enghraifft, mewn achos lle mae rhieni plentyn wedi gwahanu a'r fam sydd â phrif warchodaeth, os oes llys-dad yn byw yn yr un aelwyd byddai angen iddo yntau fodloni'r meini prawf cymhwystra er mwyn i'r plentyn gael y cynnig. Fodd bynnag, pe bai gan y fam brif warchodaeth ond ei bod yn byw gyda'i rhieni, neu fod ganddi blentyn arall dros 18 oed, dim ond amgylchiadau'r fam fyddai'n cael eu hystyried.

Cyfnodau Eemptio Dros Dro

41. Mae'r cynnig wedi'i fwriadu i gefnogi rhieni sy'n gweithio ac i annog rhieni i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu eu horiau. Ar adegau, efallai y bydd rhieni'n peidio â bod yn gymwys mwyach. Mae'n debygol mai un o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros hyn fydd lle mae un rhiant neu'r ddau riant yn colli eu swydd neu fod eu horiau'n cael eu gostwng islaw'r isafswm sy'n ofynnol. Er mwyn rhoi sefydlogrwydd i blant a darparwyr gofal plant, ac er mwyn rhoi'r cyfle i rieni ddod yn gymwys eto, bydd rhieni sy'n peidio â bod yn gymwys mwyach yn dal i allu cael mynediad at y cynnig am gyfnod byr.
42. Pan fydd person yn peidio â bod yn gymwys ar gyfer y cynnig gofal plant, byddant yn dechrau cyfnod esemptio dros dro o 8 wythnos. Ni ddylai rhiant sydd mewn cyfnod esemptio dros dro drefnu oriau o ofal plant os nad ydynt yn bwriadu eu defnyddio. Ni ddylid ar unrhyw gyfrif ddefnyddio cyfnod esemptio dros dro (neu'r cynnig yn ei gyfanrwydd) i ddefnyddio oriau o ofal plant nad yw'r rhiant yn bwriadu eu defnyddio er mwyn talu ffioedd cadw a godir gan ddarparwr. Bydd trefnu oriau o ofal plant nad oes eu hangen gan fod y plentyn gartref gyda'r rhiant yn cael ei ystyried fel hawlio drwy dwyll, ac os canfyddir bod rhiant wedi gwneud hyn gallant gael eu hadrodd i'w hawdurdod lleol. Yr unig eithriad i hyn yw lle mae'r plentyn gartref am reswm annisgwyl neu reswm na ellir ei osgoi, megis salwch.
43. Cyfrifoldeb y rhiant yw hysbysu ei awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar a'i ddarparwr bod ei amgylchiadau wedi newid. Os bydd amgylchiadau rhiant yn newid a bod y rhiant yn peidio â hysbysu ei awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar ar unwaith, bydd ei gyfnod esemptio dros dro'n dal i redeg o'r adeg y peidiodd â bod yn gymwys. Er enghraifft, os yw rhiant yn peidio â bod yn gymwys mwyach ond ei fod yn methu â hysbysu'r awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar nes bod 4 wythnos wedi mynd heibio, dim ond 4 wythnos o'i gyfnod esemptio dros dro fydd yn weddill.
44. Ar yr adeg pan fo cyfnod esemptio dros dro rhiant yn dod i ben ni fydd yn gallu cael mynediad at y cynnig mwyach, a bydd yn dod yn gyfrifol am dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r darparwr gofal plant hwnnw.

Adran 5 - Pryd y mae rhieni'n gallu manteisio ar y cynnig

45. Gall rhieni fanteisio ar y cynnig y tymor ar ôl pen-blwydd eu plentyn yn 3 oed, hyd nes y bydd ei awdurdod lleol yn cynnig lle mewn addysg lawn-amser iddo, fel rheol y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 4 oed. Caiff diwrnod cyntaf y tymor ei bennu gan yr awdurdod ac felly gall yr union ddyddiad pan fo plentyn yn gallu defnyddio'r cynnig amrywio rhwng awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar.
46. Lle mae awdurdod lleol yn gosod dyddiad gwahanol i'r plentyn orfod troi'n 3 oed ar gyfer defnyddio darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen (e.e. erbyn 31 Awst i ddefnyddio'r ddarpariaeth yn nhymor yr hydref), gall yr un rheol gael ei chymhwyso i blant sy'n manteisio ar elfen gofal plant y cynnig. Hynny fel bod plant yn dod yn gymwys i fanteisio am elfennau addysg gynnar a gofal plant y cynnig ar yr un pryd.
47. Dylai awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar sicrhau bod plant cymwys sy'n symud i mewn i'r ardaloedd lle mae'r cynnig yn cael ei weithredu yn gallu hawlio'r cynnig, unwaith y maent wedi cwblhau'r broses ymgeisio. Os yw rhiant yn dod yn gymwys, er enghraifft trwy symud i mewn i ardal a ddewiswyd, trwy ddod yn gyflogedig neu drwy gynyddu ei oriau gwaith, gall wneud cais i hawlio'r cynnig o'r adeg pan fo'n dod yn gymwys, ar yr amod bod y plentyn yn gymwys o ddechrau'r tymor hwnnw.
48. Os yw rhiant yn symud allan o ardal beilot, ond yn parhau i fodloni'r meini prawf cyflogaeth a bod ei blentyn yn parhau i fanteisio ar y cynnig yn yr un lleoliad gofal plant, gall barhau i ddefnyddio'r cynnig yn y lleoliad hwnnw. Hynny er mwyn sicrhau bod y plant hyn yn cael eu cynnwys yn y broses o werthuso'r ardaloedd peilot.
49. Bydd rhieni sy'n dod yn gymwys am eu bod naill ai'n cael cyflogaeth neu'n cynyddu eu horiau, ond nad ydynt wedi cael eu slip cyflog cyntaf eto, yn gallu profi eu bod yn gymwys i gael y cynnig os ydynt yn darparu llythyr gan eu cyflogwr sy'n cadarnhau eu cyflog a'u dyddiad dechrau, a manylion cyswllt eu cyflogwr.

Darpariaeth adeg gwyliau

50. Dim ond yn ystod y tymor y mae'r addysg gynnar a ddarperir trwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei darparu. Gall union nifer yr wythnosau 'yn ystod y tymor' bob blwyddyn amrywio rhwng yr awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar. Fodd bynnag, at ddiben y polisi hwn, bydd y tymor yn cael ei drin fel 39 wythnos, sy'n golygu y bydd 9 wythnos arall y cynnig 48 wythnos yn cael eu trin fel amser nad yw yn ystod y tymor neu'n 'ddarpariaeth adeg gwyliau'.
51. Yn ystod y 9 wythnos hon o ddarpariaeth adeg gwyliau, bydd plant cymwys yn cael 30 awr o ofal plant yn unig. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn manylu pa rai o'r 14 wythnos nad ydynt yn ystod y tymor sy'n cael eu dynodi'n 9 wythnos o ddarpariaeth adeg gwyliau, er mwyn rhoi hyblygrwydd i rieni sydd mewn galwedigaethau gwahanol megis y rheini sy'n gorfod gweithio dros wyliau'r haf neu'r Nadolig.

52. Er mwyn ei gwneud yn bosibl gweinyddu hyn, bydd rhieni'n cael defnyddio hyd at 30 awr o ofal plant yr wythnos sut bynnag y maent yn dewis (er enghraifft am 10 awr y dydd dros gyfnod o 3 diwrnod). Fodd bynnag, ni fyddai rhieni'n gallu 'ymestyn' eu hawl ar draws wythnosau na throsglwyddo oriau heb eu defnyddio ar draws wythnosau.
53. Bydd y ddarpariaeth adeg gwyliau'n cael ei ddyrannu ar ddechrau pob tymor y mae plentyn yn gymwys i gael y cynnig. Bydd plant yn cael 3 wythnos o ddarpariaeth adeg gwyliau fesul tymor. Bydd modd cario ymlaen dyraniad heb ei ddefnyddio a'i ddefnyddio yn y tymor nesaf os yw'r plentyn yn gymwys i gael y cynnig o hyd. Bydd plant sy'n gymwys am un neu ddau dymor yn unig yn cael 3 wythnos o ddarpariaeth adeg gwyliau ar ddechrau pob tymor, yn yr un modd â phob plentyn arall.
54. Mae hyn yn caniatáu i rieni benderfynu pa wythnosau y maent yn defnyddio eu 9 wythnos o ofal plant nad ydynt yn ystod y tymor, ond nhw sy'n gyfrifol am ddod o hyd i ddarparwr gofal plant sy'n gallu cynnig y ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, bydd gofyn i'r awdurdodau lleol gadw cofnod o'r ddarpariaeth adeg gwyliau sy'n cael ei defnyddio gan rieni gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ddarpariaeth heb ei defnyddio sy'n cael ei chario ymlaen.
55. Lle mae plentyn yn cael cynnig lle mewn addysg lawn-amser cyn y mis Medi yn dilyn ei bedwerydd pen-blwydd (e.e. y diwrnod neu'r tymor ar ôl ei bedwerydd pen-blwydd), mae'r plentyn hwnnw'n dal yn gymwys i gael 30 awr yr wythnos o ddarpariaeth adeg gwyliau tan y mis Medi ar ôl ei bedwerydd pen-blwydd. Hynny er mwyn sicrhau bod pob rhiant cymwys yn cael yr un cynnig ac er mwyn osgoi cosbi rhieni sy'n hawlio lle mewn addysg lawn-amser i'w plentyn cyn y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn 4 oed.

Adran 6 - Pwy sy'n gallu darparu'r cynnig

56. Gall yr elfen gofal plant o'r cynnig gael ei darparu gan unrhyw leoliad gofal plant unrhyw le yng Nghymru neu yn yr ardaloedd ar y ffin, cyn belled â'u bod wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu Ofsted yn Lloegr. I'r perwyl hwn, byddant yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant, a byddant yn gyfarwydd â Fframwaith Ansawdd AGC ac yn cael eu harolygu'n unol â hynny. Bydd darparwyr yn Lloegr yn cael eu harolygu gan Ofsted a byddant yn cydymffurfio â'u safonau hwy.
57. O fis Medi 2018, gall gofalwyr plant cofrestredig weithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gysylltiedig â phlentyn sydd hefyd yn berthynas, cyhyd â bod y gofal dan sylw yn digwydd y tu hwnt i gartref y plentyn.
58. Er bod Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn bodoli ar gyfer Nanis, nid ydynt yn cael eu rheoleiddio i'r un graddau â darparwyr gofal plant cofrestredig ac felly ni ellir eu hariannu i ddarparu'r cynnig.
59. Bydd disgwyl i ddarparwyr gofal plant sy'n dymuno bod yn rhan o'r cynnig wneud y canlynol:
- ymrwymo i gytundeb gyda'r awdurdod lleol perthnasol i ddarparu'r cynnig yn seiliedig ar y terfynau a nodwyd, sy'n cynnwys manylion y gyfradd ariannu benodedig;
 - peidio â chodi unrhyw ffioedd fesul awr ychwanegol ar rieni am y plant 3 a 4 oed sy'n mynychu dan delerau'r cynnig;
 - sicrhau, hyd y gellir, bod gofal plant yn cael ei ddarparu'n hyblyg er mwyn helpu i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio;
 - hysbysu'r awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar os bydd newid mewn amgylchiadau, megis os bydd rhiant yn methu â hawlio'r oriau a ariennir trwy'r cynnig.
60. Bydd darparwyr gofal plant yn cael eu hannog i wneud y canlynol hefyd:
- rhoi darpariaeth ac adnoddau dwyieithog neu Gymraeg, lle bo'n bosibl;
 - rhoi cymorth i blant ag anghenion addysgol arbennig, lle bo'n bosibl.

Dylai awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar eu cefnogi yn eu hymdrechion yn hyn o beth

Adran 7 - Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

61. Mae gan blentyn AAA os oes ganddo anawsterau neu anabledau dysgu sy'n ei gwneud yn fwy anodd iddo ddysgu na'r rhan fwyaf o blant eraill sydd tua'r un oedran.
62. O ran y cynnig, gallai AAA olygu bod gan blentyn:
- Nam gwybyddol ac anawsterau dysgu penodol, cymedrol, difrifol neu ddwys;
 - Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol;
 - Anhawster o ran cyfathrebu a rhyngweithio, gan gynnwys awtistiaeth ac anawsterau lleferydd ac iaith;
 - Anawsterau synhwyrol a/neu gorfforol, gan gynnwys nam ar eu clyw a/neu nam ar eu golwg neu anawsterau corfforol;
 - Cyflyrau meddygol.
63. Mae'r cynnig ar gael i bob rhiant cymwys ac mae wedi'i gynllunio i roi ystyriaeth i'r rhwystrau a all wynebu rhieni cymwys sydd â phlant ag AAA. Er mwyn sicrhau bod y cynnig yn gynhwysol i blant cymwys ag AAA yn y cyfnod gweithredu cynnar, bydd cymorth ychwanegol ar gael.
64. Gellir hawlio ar gyfer plant ag AAA drwy ddefnyddio'r ffurflen hawlio ar gyfer y grant gofal plant. Lle mae Awdurdod Gweithredu'n gweinyddu'r Cynnig ar ran Awdurdod Ymgysylltu, bydd angen iddynt weithio gyda'r awdurdod(au) partner i sefydlu proses ar gyfer rheoli penderfyniadau a thaliadau'n ymwneud â'r grant AAA. Mae canllawiau ar wahân ar gael ar gyllid grant AAA y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru.

Adran 8 - Y gyfradd dâl

65. Am flwyddyn gyntaf y cyfnod gweithredu cynnar bydd cyfradd tâl sylfaenol genedlaethol o £4.50 yr awr yn cael ei thalu i ddarparwyr gofal plant sy'n darparu gofal plant dan y cynnig.
66. Mae'r gyfradd dâl sylfaenol genedlaethol yn talu am ofal plant yn unig ac nid yw'n cynnwys taliadau am fwyd, cludiant a gweithgareddau allanol sydd â chost yn gysylltiedig â hwy, megis gwibdeithiau dydd. Pe bai darparwr gofal plant yn codi mwy na £4.50 yr awr am ofal plant fel arfer, ni all godi swm wrth yr awr yn ychwanegol at y gyfradd dan y cynnig.
67. Bydd darparwyr gofal plant yn gallu codi ar rieni am elfennau ychwanegol megis bwyd, diod, cludiant a gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad sydd â chost yn gysylltiedig â hwy. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ddarparwyr gofal plant ystyried [canllawiau](#) Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phennu ffioedd ychwanegol, wrth godi ar rieni am elfennau ychwanegol o ofal.
68. Ni ddylai rhieni sy'n rhan o'r cynnig gofal plant, fel amod o bresenoldeb eu plentyn, orfod derbyn a thalu am fwyd gan y darparwr a gallant ddewis ddarparu pecyn bwyd eu hunain os byddai'r lleoliad yn caniatáu hynny fel arfer. Dylai rhieni hefyd allu dewis peidio â chaniatáu i'w plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad ac ni ddylai hyn fod yn amodol i'w lleoliad. Dylai gweithgareddau fel hyn fod yn eithriadol ac achlysurol yn hytrach na bod yn weithgaredd rheolaidd.
69. Ni ddylai darparwyr godi mwy ar rieni sy'n manteisio cynnig ar gyfer unrhyw elfennau ychwanegol na'r hyn a godir ar rieni nad ydynt yn manteisio ar y cynnig. Er enghraifft, ni ddylai darparwyr sy'n codi £5 y dydd am brydau bwyd fel arfer gynyddu hyn i £7.50 ar gyfer rhieni sy'n manteisio ar y cynnig. Yn yr un modd, os yw darparwr fel arfer yn codi £5 ar gyfer cludiant, ni ddylai gynyddu'r swm hwn ar gyfer rhieni sy'n manteisio ar y cynnig.
70. Bydd angen i'r awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar sicrhau bod manylion y gyfradd dalu a nodir yng nghontract y darparwr ([Contract y darparwr](#)) yn ystyried ac yn atgyfnerthu canllawiau Llywodraeth Cymru i ddarparwyr gofal plant ar bennu ffioedd ychwanegol o dan y cynnig gofal plant. Bydd gan awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar gyfrifoldeb i fonitro'r ffioedd ychwanegol a godir ar rieni a gwerthuso a ydynt yn rhesymol ac yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
71. Os nad yw darparwr gofal plant yn dilyn y canllawiau ac os ystyrir ei fod yn codi ffioedd ychwanegol gormodol neu afresymol, yna dylai'r awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar ystyried a yw hyn yn gyfystyr â thorri'r contract sydd ganddynt gyda'r darparwr a hysbysu Llywodraeth Cymru.

Canllawiau ynghylch pennu ffioedd ychwanegol

72. Canllaw Llywodraeth Cymru ynghylch pennu ffioedd ychwanegol dan y cynnig am

sesiwn gofal dydd llawn (tua 10 awr) yw na ddylid codi mwy na £7.50 y dydd ar rieni. Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar werth o £2.00 y pryd. Byddai tâl o £7.50 am sesiwn gofal dydd llawn yn cynnwys tri phryd am £2.00 y pryd a 2 fyrbryd am dâl o 75c y byrbryd.

73. Y canllaw ynghylch pennu ffioedd ychwanegol dan y cynnig am sesiwn hanner diwrnod (tua 5.5 awr) yw na ddylid codi mwy na £4.75 ar rieni. Byddai'r ffigwr hwn yn ei gwneud yn bosibl codi ar blentyn am ddau bryd yn ôl cyfradd o £2.00 y pryd ac am fyrbryd yn ôl cyfradd o 75c y byrbryd.

74. Ar gyfer gofal sesiynol lle na ddarperir pryd ond lle mae plant yn cael byrbryd, y canllaw yw na ddylid codi mwy na 75c y dydd ar rieni am ddarparu byrbryd.

Adran 9 - Darparu'r cynnig

75. O fis Medi 2019, bydd model newydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithredu'r cynnig yn gynnar. Bydd y model hwn yn cael ei weithredu drwy'r consortia gwella addysg rhanbarthol, a bydd yn cynnwys dau gategori o Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar:

Awdurdod Gweithredu - bydd yr awdurdodau hyn yn gyfrifol am brosesu ceisiadau gan rieni, cadarnhau eu cymhwystra a'u hysbysu am y canlyniad. Byddant hefyd yn prosesu ac yn gwneud taliadau i ddarparwyr gofal plant ar gyfer darparu'r cynnig;

Awdurdodau Ymgysylltu - byddant yn gyfrifol am hyrwyddo'r cynnig i rieni a darparwyr gofal plant yn eu hardaloedd, rhoi hyfforddiant i'w Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar sut i ddelio ag ymholiadau ynghylch y cynnig, a darparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod gweithredu i brosesu ceisiadau a gweinyddu'r cynnig ar eu rhan.

76. Mae'r model yn seiliedig ar weithio mewn partneriaeth lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn dysgu ar y cyd, a hefyd sicrhau arbedion maint a lleihau gymaint â phosibl nifer y systemau darparu dros dro sydd ar waith yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar.

77. Bydd manylion y trefniadau newydd hyn ar gyfer cyflwyno'r cynnig gofal plant, gan gynnwys pa awdurdodau lleol fydd yn cymryd rhan a'r trefniadau partneriaeth, yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rolau a chyfrifoldebau

78. Bydd angen i'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid drafod a phenderfynu ar sut i weithredu'r berthynas rhwng yr Awdurdod Gweithredu a'r Awdurdod Ymgysylltu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y canlynol o leiaf gan y ddau gategori o awdurdod:

Cyfrifoldebau'r Awdurdod Gweithredu

- Ddatblygu system i alluogi'r rhieni yn ei awdurdod ei hun a'r awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo ddod i wybod am y cynnig, ei ddeall a gwneud cais amdano;
- Datblygu system(au) ar gyfer gwirio cymhwystra rheini sy'n gwneud cais am y cynnig yn ei awdurdod ei hun a'r awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo;
- Datblygu system(au) ar gyfer ymdrin ag unrhyw ymholiadau mewn perthynas â chais gan riant yn ei awdurdod ei hun neu'r awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo;

- Datblygu system(au) ar gyfer gwneud taliadau i ddarparwyr gofal plant yn ei awdurdod ei hun ac yn yr awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo;
- Gweithio gyda'r awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo i sefydlu proses ar gyfer ymdrin â cheisiadau ar gyfer cyllid grant AAA. Bydd y penderfyniadau'n ymwneud â'r grant hwn yn cael eu gwneud gan yr awdurdod ymgysylltu, ond bydd yr awdurdod gweithredu'n gyfrifol am reoli taliadau'r grant ar gyfer ei awdurdod ei hun a'r awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo;
- Sefydlu proses ar gyfer casglu ac adrodd ar ddata penodol i Lywodraeth Cymru a phartion eraill a gontractiwyd fel y nodwyd yn adran 11 y canllawiau hyn;

79. Disgwylir y bydd yr awdurdod gweithredu gyfrifol am ymdrin â phob ymholiad ynghylch ceisiadau safonol, p'un a yw'r cais ar waith neu wedi'i wrthod. Yr awdurdod gweithredu fydd y prif bwynt cyswllt ar gyfer rhieni neu warcheidwaid sydd wedi gwneud cais am y cynnig naill ai yn yr awdurdod ei hun neu yn yr awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo. Ond gall yr awdurdod gweithredu gysylltu â'r awdurdod cyfathrebu i ddatrys materion penodol.

80. Wrth ddatblygu systemau a phrosesau ar gyfer darparu'r cynnig, bydd angen i'r awdurdod gweithredu'n ystyried yr wybodaeth sydd yng ngweddill adran 9 y canllawiau hyn.

Cyfrifoldebau'r Awdurdod Ymgysylltu

- hysbysebu a marchnata'r cynnig i rieni a darparwyr yn ei awdurdod;
- darparu cyngor a chymorth i rieni a darparwyr yn ei awdurdod ar y cynnig gofal plant drwy ei Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd;
- penderfynu ynghylch ceisiadau am y cyllid grant AAA ar gyfer ei awdurdod a gweithio gyda'r awdurdod gweithredu i ddatblygu proses ar gyfer cyfathrebu'r penderfyniadau hyn er mwyn gallu talu'r grant. Bydd angen i awdurdodau ymgysylltu ystyried y canllawiau ar wahân ar gyllid grant AAA wrth wneud eu penderfyniadau.
- darparu tystiolaeth i werthuswyr annibynnol trydydd parti ar gyfer gwerthuso'r cynnig gofal plant;
- darparu gwybodaeth er mwyn i'r awdurdodau gweithredu allu asesu a phrosesu ceisiadau gan rieni a gwarcheidwaid o'r awdurdodau ymgysylltu. Byddai hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, darparu gwybodaeth er mwyn gallu gwirio cymhwystra rhiant, megis gwybodaeth ynghylch derbyniadau i ysgolion neu'r dreth gyngor; darparu gwybodaeth fanwl am ddarpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen yn yr awdurdod ymgysylltu, a gwybodaeth am asesiad yr awdurdod ymgysylltu o Anghenion Addysgol Arbennig plentyn at ddibenion y cynnig gofal plant.

81. Bydd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am hysbysebu a marchnata'r cynnig gofal plant yn ei awdurdod.
82. Mae Llywodraeth Cymru eisiau rhoi hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol ddatblygu trefniadau partneriaeth sy'n gweithio orau i'r rheini dan sylw. Mater i'r awdurdodau gweithredu a'r awdurdodau ymgysylltu fydd rhoi'r model mwyaf priodol yn ei le i hwyluso cyflawni swyddogaethau o dan y cytundeb partneriaeth.
83. Mae adran 10 y canllawiau hyn yn amlinellu manylion y cyllid sydd ar gael i'r awdurdodau lleol ar gyfer gweithredu'r cynnig yn gynnar. Y partneriaethau gweithredu a chyfathrebu unigol fydd yn penderfynu sut orau i ddefnyddio'r arian sydd ar gael iddynt i ddarparu'r cynnig. Er enghraifft, efallai y bydd yr awdurdodau'n dymuno ariannu ar y cyd swydd yn ymwneud â'r cynnig gofal plant i weithio ar draws yr awdurdodau gweithredu a'r awdurdodau ymgysylltu i gefnogi'r broses o ddarparu'r cynnig o fewn y cytundeb partneriaeth.

Cytundeb swyddogol yr awdurdod lleol i fod yn weithredwr cynnar

84. Mae'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant wedi cytuno ar raglen weithredu dreigl, gydag amserlen dangosol ar gyfer pryd y bydd pob awdurdod lleol yn ymuno fel gweithredwr cynnar a ph'un a fydd y broses gyflwyno'n digwydd yn raddol neu'n llawn. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth a'r model o awdurdodau gweithredu ac awdurdodau ymgysylltu.
85. Bydd angen i bob awdurdod lleol gael cytundeb swyddogol i gynigion o'r fath. Ar gyfer yr awdurdodau sy'n cyflwyno'r cynnig yn raddol, bydd angen cytuno'n swyddogol ym mha drefn y bydd y wardiau'n cael eu cynnwys yn y broses o ddarparu'r cynnig. Bydd cael cytundeb ymlaen llaw i flaenoriaethu wardiau yn caniatáu i ni reoli unrhyw ehangiad posibl yn y dyfodol mewn ffordd hyblyg ac ymatebol heb unrhyw oedi.

Cytundeb ar gyfer trefniadau partneriaeth

86. Ar ôl cael cymeradwyaeth swyddogol gan bob parti ar gyfer y trefniadau partneriaeth arfaethedig, bydd angen llunio cytundeb yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob parti a'r trefniadau cydweithio. Mater i'r awdurdodau lleol fydd penderfynu ynghylch natur y cytundeb hwn, ond bydd angen i bob awdurdod gweithredu ac awdurdod ymgysylltu dan sylw fod yn fodlon â'r cytundeb.
87. Bydd llunio cytundeb yn amlinellu'r trefniadau partneriaeth rhwng awdurdod gweithredu ac awdurdod ymgysylltu yn amod o'r grant sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r cynnig.

Cyfathrebu

88. Bydd angen i awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar hyrwyddo'r cynnig ymhlith darparwyr gofal plant a rhieni a allai fod yn gymwys. Gallai hyn gynnwys digwyddiadau i ddarparwyr, deunyddiau hyrwyddo a threfnu bod gwybodaeth

gyfredol ar gael ar wefannau (megis gwefannau unigol yr awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar). Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar fynd ati'n weithredol i hyrwyddo'r cynnig ac annog rhieni a phlant difreintiedig i'w hawlio. Dylid gwneud defnydd llawn o gysylltiadau â phartneriaid sydd mewn cysylltiad â rhieni perthnasol, megis ysgolion, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Canolfan Byd Gwaith, yn ogystal â chyfleoedd trwy bapurau newydd lleol a chyhoeddiadau eraill.

89. Pan fydd Awdurdod Gweithredu'n prosesu ac yn ymdrin â cheisiadau ar ran Awdurdod Ymgysylltu, rhaid ei wneud yn glir i'r rheini a'r gwarcheidwaid pwy fydd yn cadw'r wybodaeth a sut y caiff ei thrin.
90. Mae eisoes yn ofynnol dan Ddeddf Gofal Plant 2006¹ bod awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni a darpar rieni ynghylch y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. O ganlyniad, dylai awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r cynnig, ymateb i unrhyw gwestiynau am y cynnig a helpu rhieni cymwys, trwy eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, i ymgeisio a dod o hyd i ofal plant addas.

Gwiriad cymhwystra cyn ymgeisio

91. Efallai y bydd awdurdodau gweithredu lleol sy'n weithredwyr cynnar yn dymuno sefydlu proses sgrinio cyn ymgeisio, a fyddai'n cynnal gwiriad sylfaenol cychwynnol o gymhwystra rhiant a phlentyn cyn i gais llawn gael ei gyflwyno. Byddai angen i'r broses sgrinio cyn ymgeisio ystyried cod post y rhiant/rhieni sy'n ymgeisio, gwirio bod rhieni, llys-rieni a phartneriaid cyd-fyw hirdymor yn yr aelwyd yn gallu profi eu bod yn gweithio isafswm o 16 awr yr wythnos yn seiliedig ar yr enillion cyfatebol ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol, nad ydynt yn ennill £100,000 neu fwy (gros) a bod y plentyn o oedran cymwys. Byddai proses sgrinio o'r fath yn gwneud y system ymgeisio'n effeithlon, gan ostwng nifer y ceisiadau a geir gan deuluoedd anghymwys.
92. Fel arall, gallai awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar gyhoeddi'r meini prawf cymhwystra er mwyn i rieni/gofalwyr allu gwirio'u cymhwystra eu hunain yn gyflym cyn cyflwyno cais llawn.
93. Bydd cymhwystra rhieni i dderbyn y cynnig yn digwydd drwy hunanddatganiad naill ai ar ffurflen gais ar ffurf copi caled a ddarperir gan yr Awdurdod Gweithredu neu drwy system ymgeisio ar-lein.
94. Bydd rhieni sy'n ymgeisio am y cynnig, neu sy'n cael y cynnig, yn cael eu hysbysu y bydd angen iddynt ddangos tystiolaeth ddogfennol eu bod yn bodloni unrhyw feini prawf, neu'r holl feini prawf, ar y ffurflen gais.

¹Gweler adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (c. 21) (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth).

Y broses ymgeisio

95. Bydd angen i Awdurdodau Gweithredu sefydlu proses ar gyfer ymgeisio, boed yn electronig ar-lein, neu ar gopi papur, neu drwy gyfuniad o'r ddau. Bydd Llywodraeth Cymru'n hysbysu'r Awdurdodau Gweithredu ynghylch peth gwybodaeth y mae arnom angen iddynt ei chynnwys yn y ffurflen gais, heb ei diwygio, er mwyn ei gwneud yn bosibl gwneud gwaith monitro a gwerthuso a fydd yn sail i'r cynnig mwy hirdymor.

Hunanddatganiad

96. Mae'n ofynnol bod rhieni'n darparu cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer defnyddio eu data a bod tystiolaeth o hyn. Bydd angen atodi hysbysiad gyda'r ffurflen gais sy'n nodi pa ddata fydd yn cael eu casglu a pham, â phwy fydd y data'n cael eu rhannu, sut bydd yn cael eu defnyddio a pha mor hir y bydd yn cael eu cadw. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi hysbysiad preifatrwydd sy'n nodi'r pethau hyn, ac mae'n cydymffurfio â thelerau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a ddaeth i rym ym mis Mai 2018. Ar gyfer y Cynnig hwn, ac o dan delerau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Llywodraeth Cymru yw'r Rheolwr Data a'r awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar yw'r Proseswyr Data; mae'r awdurdodau lleol yn casglu data perthnasol ar ran Llywodraeth Cymru ac yn trosglwyddo'r data i Lywodraeth Cymru at ddibenion monitro a gwerthuso.

97. Rydym yn cydnabod efallai y bydd rhai awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar yn ystyried cyfuno'r broses casglu data ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig gyda'r broses o gasglu data angenrheidiol at ddibenion darparu addysg gynnar. Os yw'r awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar yn dewis gwneud hyn, bydd angen iddynt fod yn fodlon bod ganddynt y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i gyfuno'r setiau data hyn a llunio eu datganiad preifatrwydd eu hunain ar gyfer eu proses casglu data nhw, sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac yn gwahaniaethu'n glir rhwng y data a gesglir ar ran Llywodraeth Cymru a'r data a gesglir ar ran yr awdurdod lleol. Cynghorir bod y datganiadau hyn yn cael eu gwirio gan y staff perthnasol o fewn yr awdurdod er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Gwirio cymhwystra

98. Bydd angen i awdurdodau gweithredu wirio cymhwystra'r holl geisiadau. Er y bydd ymgeiswyr yn llofnodi ymwadiad i gadarnhau eu bod yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer cymhwystra, disgwylir y bydd pob cais yn cael ei ategu hefyd gan dystiolaeth ddogfennol o gymhwystra. Gallai hyn gynnwys:

- prawf bod ymgeisydd yn byw mewn ardal gymwys, h.y. y cod post i gael ei wirio trwy ei gymharu â data ynghylch y dreth gyngor;
- prawf o enillion, i ddangos bod pob rhiant yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr isafswm cyflog h.y. gwerth 3 mis o slipiau cyflog;
- prawf o gontract cyflogaeth i sicrhau cymhwystra dros gyfnod hir, neu gytundeb gan yr ymgeisydd sy'n caniatáu i'r Awdurdod Gweithredu wirio manylion contract cyflogaeth;

- prawf o oedran a dyddiad geni'r plentyn, h.y. copi o dystysgrif geni neu rif cyfeirnod tystysgrif geni i'w wirio yn erbyn manylion cofrestru mewnol.
99. Bydd angen ystyried hefyd sut y bydd ymgeiswyr sydd newydd symud i fyw yn yr awdurdod yn darparu prawf o'u cyfeiriad, h.y. os nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer y dreth gyngor eto.
100. Bydd rieni sydd newydd ddod yn hunangyflogedig wedi'u heithrio o'r meini prawf isafswm incwm ar gyfer y cynnig ar gyfer y 12 mis cyntaf. Bydd angen i'r rhieni hyn gyflwyno tystiolaeth bod eu busnes wedi'i gofrestru drwy ddarparu eu Rhif Cyfeirnod Treth Unigryw.
101. Bydd angen i rieni sy'n hunangyflogedig ddarparu eu Rhif Cyfeirnod Treth Unigryw i'r awdurdod er mwyn gwneud cais. Dylai'r awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar wirio incwm y rhiant hunangyflogedig drwy edrych ar ei ffurflen hunanasesu ddiweddaraf (SA103) am fanylion Cyfanswm yr Elw Trethadwy.
102. Os nad yw ffurflen hunanasesu ddiweddaraf y rhiant yn dangos enillion wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol, bydd angen i'r rhiant ddarparu amcan o sut y bydd yn bodloni'r trothwy incwm yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r cymhwystra yn seiliedig ar amcan y rhieni o'r hyn y bydd yn ei ennill dros y flwyddyn nesaf, nid yr hyn a enillwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
103. Bydd angen i Awdurdodau Gweithredu ddatblygu canllawiau i gyd-fynd â'r ffurflen gais sy'n nodi manylion y cynnig. Cynghorir y dylai canllawiau o'r fath ymdrin â'r canlynol o leiaf:
- Manylion y cynnig, gan gynnwys egluro bod y cynnig yn gymysgedd o ddarpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen a gofal plant, y gwahaniaeth rhwng y ddau a pha oriau fydd yn cael eu cynnig fel darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen a pha oriau fydd yn cael eu cynnig fel gofal plant;
 - Manylion llawn y meini prawf cymhwystra, gan gynnwys manylion eithriadau etc;
 - Y broses ymgeisio ar gyfer darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen ac elfen gofal plant y cynnig, beth sy'n digwydd yn ystod bob cam, beth fydd angen iddynt ei wneud o ran darparwyr etc;
 - Eglurhad ei bod yn bosibl na fydd y diwrnodau a'r oriau a nodir yn y ffurflen gais yn cael eu bodloni gan y darparwr a ddewiswyd ganddynt a'i bod yn bosibl na fydd y darparwr hwnnw'n cytuno i gymryd rhan yn y cynnig o gwbl a beth ddylai ddigwydd dan amgylchiadau o'r fath;
 - Eglurhad ynghylch pwy sy'n atebol am beth mewn perthynas â chontract rhwng rhiant a darparwr, h.y. wrth lofnodi contract gyda darparwr mae'r rhiant yn

ymrwymo i gontract cyfreithiol, yn annibynnol ar yr awdurdod;

- Eglurhad bod unrhyw oriau pan fo'r plentyn yn cael gofal gan ddarparwr gofal plant, y tu allan i derfynau'r cynnig ac uwchlaw'r 30 awr ar y cyd, yn oriau y mae'r rhiant yn atebol am dalu amdanynt.

Rheoli'r wybodaeth

104. Bydd angen i'r Awdurdodau Gweithredu ystyried sut y bydd gwybodaeth a geir trwy'r broses ymgeisio'n cael ei thrin, sut y bydd yn dod i law, sut y bydd yn cael ei storio ac am faint o amser y bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw. Ni ddylid storio gwybodaeth am gyfnod hwy nag sydd angen i alluogi person i barhau i ddefnyddio'r cynnig tra eu bod yn gymwys i wneud hynny neu i werthuso eu cyfranogiad. Dylid nodi hyn yn glir pan fydd y rhiant yn rhoi caniatâd i ddefnyddio ei ddata, ynghyd â manylion ynghylch sut i dynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl.

105. Rhaid i'r modd y caiff gwybodaeth ei reoli gydymffurfio â deddfau diogelu data. Cynghorir bod cyngor yn cael ei geisio gan gydweithwyr mewnol perthnasol, h.y. Swyddogion Data a Gwybodaeth neu Swyddogion Diogelu Data, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a ddaeth i rym ym mis Mai 2018.

Cronfa ddata

106. Bydd angen i Awdurdodau Gweithredu ddatblygu cronfa ddata i storio a phrosesu gwybodaeth o geisiadau. Bydd angen i'r gronfa ddata hon greu rhif adnabod unigryw a fydd yn cael ei aseinio i bob plentyn cymwys o dan y cynnig. Bydd y rhif adnabod unigryw hwn yn helpu i fapio plentyn trwy'r system.

107. Hefyd, bydd angen i'r gronfa ddata ddal gwybodaeth benodol y bydd yn ofynnol ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â monitro a gwerthuso'r cyfnod cynnar o ran gweithredu'r cynnig. Bydd angen i'r wybodaeth hon gael ei storio mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl llunio adroddiadau misol a chwarterol. Ceir manylion pellach ynghylch Gwerthuso a Monitro yn Adran 11.

108. Gall yr Awdurdodau Gweithredu archwilio'r posibilrwydd o addasu systemau cyfrifiadurol presennol neu ddefnyddio cronfa ddata generig, megis Excel, i gasglu'r wybodaeth. Fodd bynnag, ystyrir mai system dros dro fydd unrhyw system a roddir ar waith ar gyfer y cyfnod gweithredu cynnar, gyda system genedlaethol ar gael pan fydd y cynnig yn cael ei gyflwyno'n llawn. Felly mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r buddsoddiad ariannol mewn unrhyw system o'r fath a chynnal dadansoddiad o gost a budd i sicrhau'r lefel gywir o fuddsoddiad o ran amser, ymdrech ac arian.

Hysbysu rhieni

109. Bydd angen sefydlu system i hysbysu rhieni ynghylch canlyniad eu cais a ph'un a ganfuwyd eu bod yn gymwys ai peidio. Bydd angen i'r Awdurdodau Gweithredu ystyried amseroldeb y cyfathrebiad hwn a sut y bydd yn digwydd, yn electronig trwy'r e-bost ynteu ar ffurf copi caled trwy lythyr.

110. Yn ogystal â phenderfyniad, bydd ar rieni angen gwybodaeth am y canlynol hefyd:

- y broses ar gyfer sicrhau darparwr, gan gynnwys y broses os nad yw darparwr y byddant yn cysylltu ag ef wedi'i gofrestru'n barod ar gyfer y cynnig, h.y. cyngor ynghylch ble y gall darparwr gael gwybodaeth am gofrestru;
- y broses os na fydd darparwr yn dymuno cymryd rhan yn y cynnig;
- beth sy'n digwydd unwaith y mae darparwr wedi cytuno i gynnig lle ar gyfer gofal plant o dan y cynnig;
- manylion y costau sydd wedi'u cynnwys yn y gyfradd, h.y. nad yw'r gyfradd yn cynnwys costau teithio, gweinyddu a ffioedd cadw etc;
- manylion y gwahaniaethau rhwng contract safonol gyda'r darparwr a chontract ar gyfer y cynnig. Dylai fod yn glir bod y rhiant, wrth gytuno i gymryd lle gofal plant, yn ymrwymo i gontract preifat gyda'r darparwr y mae'n atebol amdano.

111. Dylai fod yn glir i rieni mai cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau gofal plant sy'n diwallu anghenion unigol, ac y dylid ceisio hyn o'r ddarpariaeth bresennol. Fodd bynnag, dylai'r Awdurdodau Gweithredu wneud rhieni'n ymwybodol o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol sy'n gallu darparu gwybodaeth ynghylch pa ddarpariaeth sydd ar gael.

Y broses ar gyfer darparwyr

112. Bydd angen i ddarparwyr gofrestru i ddarparu'r cynnig ac, wrth wneud hynny, cytuno â thelerau ac amodau'r cynnig.

113. Bydd angen i'r Awdurdodau Gweithredu sefydlu proses ar gyfer cofrestru darparwyr a bydd angen iddynt roi cyhoeddusrwydd i'r broses hon trwy eu gwefannau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a gwefannau'r Awdurdodau Ymgysylltu y maent yn gweithio gyda nhw.

114. Bydd angen iddynt hefyd sefydlu proses ar gyfer cadarnhau gyda'r darparwr faint o oriau a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer pob plentyn unigol. Fel rhan o'r broses hon, awgrymir ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwblhau ffurflen sy'n cadarnhau cais plentyn am ofal plant ac sy'n cynnwys manylion rhif adnabod unigryw'r plentyn, nifer yr oriau y mae plentyn yn eu hawlio, y patrwm a'r diwrnodau y bydd yr oriau hyn yn cael eu hawlio ar eu cyfer a chyfanswm yr oriau y mae'r plentyn gyda'r darparwr. Wedyn bydd angen i'r Awdurdod Gweithredu gynnal ymarfer cysoni i sicrhau bod nifer yr oriau a ariennir gan y Llywodraeth y mae'r rhiant yn eu hawlio yn cyd-fynd â'r rheini ar ei gais ac y gellir eu bodloni o fewn eu hawl.

Contract y darparwr

115. Cyn gallu darparu gofal plant o dan y cynnig bydd angen i ddarparwr fod wedi cofrestru yn gyntaf gyda'r Awdurdod Gweithredu ar gyfer taliadau a bydd angen iddo fod wedi cytuno â thelerau ac amodau'r cynnig, fel y nodir mewn contract rhwng awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar a darparwr.

116. Y contract hwn fydd yn diffinio ac yn rheoli'r berthynas rhwng yr awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar a'r darparwr a bydd yn darparu'r sail gyfreithiol i'r berthynas. Bydd y contract yn nodi cyfrifoldebau a rhwymedigaethau o ran taliadau ac ad-daliadau. Argymhellir felly bod cydweithwyr mewnol perthnasol yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio'r contract gan gynnwys, ymhlith cydweithwyr eraill, cydweithwyr yn y gwasanaethau cyfreithiol ac archwilio, er mwyn sicrhau bod gofynion cyfreithiol, gofynion cyffredinol o ran data a diwydrwydd dyladwy ar gyfer yr awdurdod lleol unigol sy'n weithredwr cynnar yn cael eu cyflawni.

117. Fel lleiafswm, cynghorir bod y canlynol yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio contract darparwr:

- Manylion mewn perthynas â thaliadau, y broses a rheoleidd-dra etc;
- Gofynion monitro a gwerthuso – manylion y gofynion adrodd; lefel ac amseriad, a gofynion mewn perthynas â'r contractwr annibynnol a gafodd ei gaffael i werthuso'r cynnig. Dylai fod yn eglur bod darparu'r data'n un o ragofynion cyfranogi yn y cynnig ac y gallai methiant i ddarparu'r wybodaeth ofynnol arwain at weithredu yn yr un modd ag unrhyw achos arall o dorri telerau ac amodau'r cynnig.
- Manylion atebolrwydd mewn perthynas â gofal y plentyn ac unrhyw ofynion megis asesiadau neu becynnau cymorth iechyd a diogelwch y mae'n ofynnol i ddarparwr eu cwblhau;
- Manylion y cyfrifoldebau o ran hysbysu'r parti arall os bydd un parti'n dod yn ymwybodol o newid yn amgylchiadau rhiant sy'n effeithio ar ei gymhwysra;
- Manylion mewn perthynas â thaliadau os bydd rhiant yn mynd y tu hwnt i'r cyfnod esemptio dros dro o wyth wythnos ac yn parhau i ddefnyddio'r gofal plant;
- Y broses os canfyddir ymddygiad twyllodrus ar ran y darparwr.

118. Efallai y bydd awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar yn dymuno gofyn am y canlynol hefyd o ran sicrwydd:

- Tystiolaeth ddigonol o hyfywedd ariannol y darparwr, h.y. prawf o sefyllfa ariannol;
- Copi o'r contract rhwng y rhiant a'r darparwr;

Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi

119. Cyhoeddwyd y [Cod Ymarfer newydd ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi](#) ym mis Mawrth 2017. Mae'r cod yn rhwymo sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i set o gamau gweithredu sy'n ymdrin ag arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac annheg.

120. Mae disgwyl i'r holl sefydliadau yn y sector cyhoeddus, busnesau a sefydliadau yn y trydydd sector sy'n derbyn cyllid gan y sector cyhoeddus, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy grantiau neu gontractau, ymrwmo i'r Cod. Anogir sefydliadau eraill yng Nghymru i ymrwmo iddo.

121. O ran y cynnig, ystyrir y bydd disgwyl i'r awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnal ymrwymo i'r cod. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i ddarparwyr gofal plant wneud yr un modd. Fel busnesau, byddai darparwyr gofal plant yn cael eu hannog i ymrwymo i'r cod fel arfer da, ond nid yw'n un o ofynion y cynnig. Ni ystyrir bod contract gofal plant o dan y cynnig yn rhan o gadwyn gyflenwi'r sector cyhoeddus. Caiff y contract gofal plant ei negodi a'i gytuno rhwng y rhiant a'r darparwr.

Proses ar gyfer talu darparwyr

122. Bydd angen i Awdurdodau Gweithredu sefydlu system a phroses ar gyfer talu darparwyr. Bydd angen i ddarparwyr gofrestru fel cyflenwr gydag Awdurdod Gweithredu er mwyn gallu hawlio am ofal plant a ddarperir o dan y cynnig.

123. Yn ogystal, bydd angen i'r Awdurdodau Gweithredu ddatblygu system a fydd yn caniatáu iddynt dalu darparwyr yn fisol ymlaen llaw (lle'n bosibl) a chasglu gwybodaeth at ddibenion monitro a gwerthuso ar gyfer y mis blaenorol.

124. Rydym yn cynghori bod darparwyr yn cael eu talu ymlaen llaw, lle bynnag y bo modd, ar gyfer yr oriau o ofal plant a ddarperir trwy'r cynnig. Os nad yw systemau archwilio mewnol yr awdurdod lleol yn caniatáu i daliadau gael eu gwneud ymlaen llaw, dylid talu ar ffurf ôl-daliadau cyn gynted â phosibl ar ôl i'r lleoliad gofal plant ddarparu'r oriau hynny drwy'r cynnig.

Ailwirió cymhwystra

125. Bydd angen i awdurdodau gweithredu ddatblygu system i gadarnhau a yw rhieni sy'n manteisio ar y cynnig yn parhau i fod yn gymwys. Yr awdurdod lleol unigol sy'n weithredwr cynnar fydd i benderfynu pa system a sefydlir; fodd bynnag, bydd angen iddynt fod wedi'u hargyhoeddi bod unrhyw system a phroses yn ateb gofynion yr awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar o ran diwydrwydd dyladwy.

126. Bydd angen i'r ailwiriadau i sicrhau cymhwystra ar gyfer y tymor canlynol gael eu cynnal yn dymhorol ar bob ymgeisydd cyfredol, a hynny mewn modd amserol, gan roi amser i rieni ail-gadarnhau eu cymhwystra cyn i'r tymor ddechrau. Bydd angen ystyried amseriad y broses er mwyn sicrhau bod cymhwystra'n cael ei ail-gadarnhau o fewn y cyfnod esemptio dros dro o 8 wythnos a fyddai'n gymwys pe bai rhiant yn peidio â bod yn gymwys mwyach.

127. Ni ddisgwylir y bydd angen i ymgeiswyr ailgyflwyno ceisiadau llawn fel rhan o'r broses hon, ac ni fydd disgwyl i'r holl ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ddogfennol i ategu eu cymhwystra parhaus. Fodd bynnag, disgwylir y bydd hapwiriadau'n cael eu cynnal ar leiafswm o ugain y cant o'r rhieni hynny sy'n ailgadarnhau eu cymhwystra, lle bydd tystiolaeth bellach yn cael ei cheisio i brofi eu bod yn parhau i fod yn gymwys.

128. Bydd angen i'r broses ar gyfer yr ailwiriadau hyn a'u hamseriad gael eu pennu gan yr awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar.

Y broses adhawlio

